

- Electoral
- Reform
- Society
Cymru

PŴER YNG
NGHYMRU II

PŴER A
LLAIS POBL
IFANC YNG
NGHYMRU



RHAGOR O WYBODAETH

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag Electoral Reform Society Cymru

- Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
- Ffôn: (029) 2049 6613
- Ebost: wales@electoral-reform.org.uk

I gael y newyddion diweddaraf am ein gwaith

- Trydar: @ERS_Cymru
- Facebook: www.facebook.com/ERSWales
- Gwe: www.electoral-reform.org.uk/wales

ERS CYMRU

Yr egwyddor syml y mae Electoral Reform Society Cymru yn ei dilyn yw y gall gwleidyddiaeth fod yn well. Rydym ni'n ymgyrchu dros well democratiaeth yng Nghymru ac ar draws y DU. Ein gweledigaeth yw democratiaeth gynrychioliadol sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Fe wyddom fod pob blwyddyn sy'n pasio, a ninnau'n parhau i weithredu system wleidyddol o'r oes o'r blaen, yn flwyddyn o gyfle a gollwyd i bobl Cymru. Rydym ni'n credu mewn democratiaeth:

- Lle mae pob pleidlais a phob barn o werth ac yn haeddu gwrandawriad;
- Lle mae pawb yn gallu gwneud penderfyniadau ar y hyn sy'n effeithio ar eu bywydau;
- Lle mae ein sefydliadau'n adlewyrchu'r bobl mae nhw'n eu gwasanaethu;
- Lle mae pobl yn gallu dal y rheini sydd â grym i gyfrif;
- Lle mae gwleidyddiaeth yn cynnig dewisiadau go iawn i bobl.

AWDURON

Steve Brooks yw Cyfarwyddwr Electoral Reform Society Cymru.

Dr Owain ap Gareth yw Swyddog Ymgyrchoedd ac Ymchwil Electoral Reform Society Cymru.

Rhodri Griffiths yn athro ac yn ymgyngorydd addysg i Electoral Reform Society Cymru.

Juliet Swann yw Swyddog Ymgyrchydd ac Ymchwil Electoral Reform Society yr Alban.

DIOLCHIADAU

Hoffai Electoral Reform Society Cymru ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau canlynol sydd wedi cyfrannu syniadau a gwybodaeth i'r adroddiad hwn:

Unigolion

Sarah Allen	INVOLVE
Kate Bennett	Cyfarwyddwr, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Rodney Berman	Cyn arweinydd Cyngor Sir Caerdydd
Hannah Blythyn	Pennaeth Strategaeth a Pholisi Gwleidyddol Cymru, UNITE the Union
Jane Davidson	Cyn Weinidog Addysg, Llywodraeth Cymru
Rhian Davies	Prif Weithredwr, Anabledd Cymru
Anwen Elias	Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth Gymharol, Prifysgol Aberystwyth
Chris Evans	Aelod Seneddol, Islwyn
Jess Garland	Electoral Reform Society
Kelly Harris	Yn flaenorol o'r Ddraig Ffynci
Bethan Jenkins	Aelod Cynulliad, Gorllewin De Cymru
Helen Mary Jones	Prif Weithredwr, Youth Cymru
Laura McAllister	Athro Llywodraethiant, Prifysgol Lerpwl
Stuart Owadally	Trefnydd Cymunedol, Movement for Change
Roger Scully	Athro Gwyddor Wleidyddol, Prifysgol Caerdydd
Annette Stead	Athro, Ysgol Gyfun Sandfields, Port Talbot
Mitch Theaker	Cyn Gyngorydd ac Aelod Cabinet, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Craig Williams	Ymgeisydd Seneddol, Gogledd Caerdydd; a Chyngorydd Cyngor Sir Caerdydd
Kirsty Williams	Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru; ac Aelod Cynulliad Brycheiniog a Maesyfed

Sefydliadau

Y Ddraig Ffynci
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Prosiect DG: Undeb sy'n Newid
Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol

Pŵer Yng Nghymru II:

Pŵer a Llais Pobl Ifanc yng Nghymru

CYNNWYS

- 6 Cyflwyniad
- 8 Y bleidlais yn 16: Y llwybr at etholfraint deg
- 10 Cofrestru pleidleiswyr: cenedlaeth goll?
- 14 Cyfweiliad: Mitch Theaker
- 16 Pleidleisio a 'bom amser y ganran bleidleisio'
- 20 Cyfweiliad: Bethan Jenkins
- 22 Addysg Wleidyddol a Dinasyddiaeth mewn ysgolion
- 28 Cyfweiliad: Kirsty Williams
- 32 O'r Ddraig Ffyni i Gynulliaid Cenedlaethol leuenctid Cymru
- 34 Cyfweiliad: Craig Williams
- 36 Oed a bywyd cyhoeddus yng Nghymru
- 44 Cyfweiliad: Chris Evans
- 46 Argymhellion
- 48 Astudiaethau achos
- 54 Atodiadau

CYFELWYNNIAD

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn **16** oed eleni

Dan ddatganoli, mae Cymru'n genedl ddemocrataidd ifanc; ond mewn sawl ffordd, nid yw ei hieuenctid yn gyfystyr â bywiogrwydd. Mae canrannau pleidleisio etholiadau'r Cynulliad yn gyson isel, heb unwaith adennill 'uchafbwynt' 1999 o 46%, a gan gwmpo mor isel â 37% yn 2007.

Er bod ymddieithrio rhag gwleidyddiaeth yn effeithio ar bob oed, mae'r ymdeimlad o ddiffyg cyswllt â gwleidyddiaeth ffurfiol ar ei gryfaf ymhlith pobl ifanc. Yn Etholiad Cyffredinol 2010, pleidleisiodd dros dri chwarter o bobl 65 oed neu hŷn, o'i gymharu â llai na hanner y bobl dan 25 oed. Mae canfyddiadau arolwg a gyhoeddwyd gan y sefydliad ymchwil Cymreig WISERD yn ychwanegu at y corff o dystiolaeth sy'n dangos bod pobl ifanc yn troi i ffwrdd o wleidyddiaeth plaid draddodiadol.

Ond mae gobaith o hyd. Er bod ffydd mewn gwleidyddion yn isel, mae cred mewn democratiaeth yn uchel. Canfu WISERD¹ fod yn agos i 90% o'r bobl a holwyd yn teimlo y bydd pwy sy'n rheoli pethau ar ôl etholiad cyffredinol eleni'n bwysig; a dywedodd bron i ddwy ran o dair fod gwleidyddiaeth yn effeithio ar eu bywyd 'llawer' neu 'ychydig' o'i gymharu â 30% a ddywedodd 'dim o gwbl'.

Y gred gyffredinol yw bod pleidleisio'n rhywbeth mae unigolion yn tueddu i'w wneud yn hwyrach yn eu bywyd. Eto i gyd mae data'r

Astudiaeth o Etholiadau Prydain yn dangos nad yw hyn o reidrwydd yn parhau i fod yn wir. O fewn y lefelau pleidleisio cyffredinol, mae rhywbeth pryderus ar droed: mae'r bwlch rhwng y gyfran o bobl ifanc sy'n pleidleisio a'r boblogaeth hŷn i'w weld yn tyfu. Ein rhybudd ni yw mai hwn yw bom amser y ganran bleidleisio.

Mae bod yn ddinesydd gweithgar wastad wedi golygu mwy na bwrw pleidlais yn unig; ond mae dinasyddiaeth a'r hyn mae'n ei olygu yn newid. Yng Nghymru, fel yn yr Alban a Lloegr, mae'r berthynas rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd yn esblygu. Mae grym yn symud, a bydd dinasyddion yn gynyddol yn cymryd cyfrifoldeb am ffurfio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn yr amgylchiadau hyn mae angen dinasyddion mwy gwybodus, sy'n dangos diddordeb. Mae sicrhau bod pobl ifanc yn wybodus ac yn dangos diddordeb felly'n hanfodol wrth ffurfio'r Gymru rydym ni am ei gweld ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Roedd Cymru ar y blaen yn y DU pan aeth ati yn 2011 i ymgorffori Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn y gyfraith, gan arddel Erthygl 12 sy'n nodi hawl plant a phobl ifanc i gyfranogi a chael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Rydym ni'n dadlau bod yr ymrwymiad clodwiw hwn wedi'i danseilio gan y penderfyniad i dynnu cyllid yn ôl o'r Ddraig Ffyni, Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, gan olygu mai Cymru yw'r unig genedl yn Ewrop nad oes ganddi fersiwn o senedd ieuenctid genedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn, ein hail Adroddiad Pŵer yng Nghymru², yn ymchwilio i ba mor wybodus yw pobl ifanc a'u lefel o ddiddordeb, a pha gamau y gellid eu cymryd i alluogi gwell ymgysylltu â nhw. Rydym ni'n codi pryderon ynglŷn â'r modd mae'r system newydd o gofrestru i bleidleisio yn gweithio i bobl ifanc ac yn edrych yn fwy manwl ar 'fom amser y ganran bleidleisio'. Rydym ni'n trafod dealltwriaeth pobl ifanc ac yn edrych a yw dulliau cyfredol o addysg wleidyddol a chyfranogiad ieuenctid yng Nghymru'n gweithio'n effeithiol. Rydym ni hefyd yn clywed gan nifer o wleidyddion am eu profiadau o fywyd fel pobl ifanc mewn swyddi etholedig.

Rydym ni'n gorffen gyda nifer o brif argymhellion. Rydym ni am i Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol Cymru ymrwymo i sicrhau'r canlynol:

Cyflwyno'r bleidlais yn 16 oed

Gwella addysg wleidyddol mewn ysgolion

Sefydlu Cynulliad Ieuenctid i Gymru

STEVE BROOKS
CYFARWYDDWR
ELECTORAL REFORM SOCIETY CYMRU

¹ Gweler WISERD am ragor o wybodaeth: <http://www.wiserd.ac.uk/>

² S Brooks and O ap Gareth, Welsh Power Report: Women in Public Life (ERS:2013), ar gael: <http://www.electoral-reform.org.uk/downloadfile.php?PublicationFile=274>

Y bleidlais yn 16: Y llwybr at etholfraint deg

Profodd refferendwm annibyniaeth yr Alban fod pobl 16 a 17 oed yn fwy nag abl i wneud penderfyniadau gwleidyddol pwysig. Dyna pam rydym ni'n cefnogi dod â'r oed pleidleisio i lawr ym mhob etholiad cyhoeddus yn y DU, a pham rydym ni'n credu y dylid datganoli'r pŵer dros yr etholfraint ar gyfer etholiadau Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r llwybr at etholfraint deg wedi bod yn un hir. Roedd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 yn ddarn hanesyddol o ddeddfwriaeth oedd yn ehangu'r etholfraint (yr hawl i bleidleisio) i ddynion a menywod ledled y DU. Am y tro cyntaf, roedd pob dyn dros 21 oed yn cael cyfranogi yn etholiadau cyffredinol y DU heb ystyriaeth i hawliau eiddo. Cafodd yr hawl i fenywod bleidleisio, yn sgil gweithredu mudiad y Suffragettes, hefyd ei gynnwys yn y ddeddf, ond gyda chyfyngiadau pwysig; a'r mwyaf nodedig o'r rhain oedd na fyddai gan fenywod hawl i bleidleisio hyd nes eu bod yn 30 oed, beth bynnag eu hawliau eiddo.

Yn 1928, cyflwynwyd deddfwriaeth bellach i sicrhau etholfraint gyfartal i ddynion a menywod gan lywodraeth Geidwadol y DU a chafodd hyn ei basio yn y Senedd. Yng Nghymru, o fewn y DU, yn debyg i'r mwyafrif o ddemocratiaethau Ewrop, arhosodd oed oedolaeth yn 21 am y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif, ond drwy gydol y 1960au, gostyngodd llawer o genhedloedd yr oed pleidleisio i 18. Cyflwynwyd y newid hwn yn y DU drwy Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1969.

Ers 1999 pan fethodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu hymdrech i ostwng yr oed pleidleisio, mae nifer o adroddiadau annibynnol wedi cefnogi gostwng yr oed pleidleisio. Erbyn diwedd y 2000au, roedd Llafur, y

Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, y Blaid Werdd a'r SNP i gyd wedi cryfhau eu safbwynt polisi i gefnogi'r bleidlais yn 16 oed. Ond daeth y trobwynt mawr yn 2011.

Roedd Cytundeb Caeredin, oedd yn ymwneud â'r Refferendwm ar Annibyniaeth, yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gorchymyn adran 30 yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban estyn yr etholfraint yn y refferendwm i gynnwys pobl 16 ac 17 oed. Deddfwyd ar y cynnig yn Neddf Refferendwm Annibyniaeth yr Alban (Etholfraint) 2014.

Yn dilyn cyfranogiad pobl 16 a 17 oed yn y bleidlais annibyniaeth, mae'r achos dros ostwng yr oed pleidleisio yn yr Alban bellach yn ddiymwad, gyda Llywodraeth y DU yn

cydnabod yn 2014 y byddai pleidlais i bobl 16 oed yn rhan o becyn Comisiwn Smith o bwerau datganoledig newydd. Yn ystod hydref 2014, bu Electoral Reform Society Cymru ac eraill (gan gynnwys Bite the Ballot sydd wedi'u cynnwys fel astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn) yn gweithio gyda mainc flaen Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru ac aelodau mainc groes yn Nhŷ'r Arglwyddi i berswadio Llywodraeth y DU i dderbyn y dylai pobl 16 a 17 oed gael yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw refferendwm yn y dyfodol ar bwerau treth incwm i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Fel rhan o gytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar ddatganoli, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i ddatganoli pŵer dros ostwng yr oed pleidleisio i'r Cynulliad Cenedlaethol; symudiad sydd wedi derbyn cefnogaeth y blaid Lafur a Phlaid Cymru. Yr her nawr yw sicrhau bod hyn yn digwydd ymhell o flaen etholiad y Cynulliad yn 2016, i ganiatáu digon o amser i ACau basio deddfwriaeth newydd, ac i'r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol ei rhoi ar waith.

Cofrestru pleidleiswyr: cenhedlaeth goll?

I bobl ifanc, mae angen ymuno â'r gofrestr bleidleisio cyn iddyn nhw hyd yn oed ddewis a ydyn nhw am bleidleisio ai peidio. Mae rhai grwpiau'n llai tebygol i gofrestru nac eraill – ac mae yn effeithio yn nodedig ar bobl ifanc. Yn wir, mae hyd yn oed yn anodd mesur y ganran bleidleisio'n gywir gan fod y mesur yn seiliedig ar y bobl sydd wedi cofrestru ac felly mae'n debygol ein bod yn tanamcangyfrif graddfa'r broblem.

Mae pŵer dros gofrestru pleidleiswyr yn dal i fod yn gyfrifoldeb Senedd y DU. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gynnal cofrestr 'gywir a chyflawn' o bawb yn eu hardal. Yr etholfraint ar gyfer pob etholiad yng Nghymru yw 18, er y bydd pobl 16 ac 17 oed yn cael pleidleisio mewn unrhyw refferendwm yn y dyfodol ar ddatganoli pwerau treth incwm. Hefyd gellir ychwanegu pobl 16 a 17 oed at y rhestr o bleidleiswyr cyn iddyn nhw gyrraedd 'llawn oed' yn 18.

Serch hynny, mae'r modd mae pobl yn cofrestru yn newid, ac mae risg gwirioneddol o hyd y gallai pobl ifanc 'syrthio oddi ar' y gofrestr.

Yn 2011 pasiwyd deddfwriaeth lle'r oedd Cofrestru Etholiadol Unigol yn disodli 'cofrestru cartref'. Mae'r newid hwn yn arwyddocaol ac mae croeso iddo mewn egwyddor, ond mae perygl y bydd y nifer o bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn gostwng.

Y system gyfredol yw cofrestru cartref. Mae hon yn system sy'n dyddio o Oes Fictoria, cyfnod pan oedd yr hawl i bleidleisio'n seiliedig ar hawliau eiddo. Bellach ni yw'r unig ddemocratiaeth Orllewinol sy'n parhau i ddefnyddio cofrestru cartref. Bydd cyflwyno Cofrestru Etholiadol Unigol yn gwella cywirdeb y gofrestr ac yn helpu i atal twyll. Dyma'r symudiad cywir ond mae angen ei wneud yn y ffordd iawn. Fodd bynnag, mae pryder yn parhau y bydd symud o gofrestru cartref i gofrestru'n unigol yn golygu bod pobl ifanc mewn perygl sylweddol o ddisgyn oddi ar y rhestr. Mae nifer o grwpiau cymdeithasol mewn perygl. Yn gyffredinol, y mwyaf 'sefydlog' yw

unrhyw ddinesydd yn ei gartref ac yn ei gymuned, y mwyaf tebygol yw hi fod yr unigolyn hwnnw wedi'i gofrestru. Mae perchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod yn gofrestredig na phobl sy'n rhentu ac mae pobl mewn tai rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gofrestredig na phobl sy'n rhentu'n breifat. Yn yr un modd, mae mewnudwyr o gymunedau diaspora mwy sefydledig sy'n fwy gweithgar yn economaidd a chynwysedig yn gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gofrestredig na rhai sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar neu gymunedau du a lleiafrifol ethnig sy'n profi lefelau uwch o eithrio cymdeithasol.

I bobl ifanc yn benodol, mae'r risg o beidio â chofrestru'n ddeublyg. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o fod yn byw mewn tai rhent dros dro neu dymor byr, ac felly'n gyfran uwch o'r farchnad rhent breifat na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae ffigurau Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU4 yn amlgu'r gwahaniaeth hwn.


Mae tri chwarter o'r bobl 16-24 oed sydd mewn llety ar rent yn rhentu yn y sector preifat yn hytrach na mewn tai cymdeithasol (a ddarperir gan awdurdod lleol neu gymdeithasol tai). Ar y llaw arall, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol ac mae pobl yn fwy tebygol o fyw am gyfnod hirach mewn tai cymdeithasol. Mae dros draean o bobl sy'n rhentu'n breifat wedi byw yn eu cartref am flwyddyn neu lai, gyda dwy ran o dair yn byw yn eu cartref cyfredol am dair blynedd neu lai. Nid yw'r lefel hon o symud i'w weld gyda thai cymdeithasol. Dim ond un ym mhob deg o bobl sy'n rhentu'n gymdeithasol sydd wedi bod yn eu cartref cyfredol am lai na blwyddyn. Yn ogystal mae'r newidiadau diweddar dan y drefn Cofrestru Etholiadol Unigol yn golygu na chaiff prifysgolion ddefnyddio data cartref bellach i gofrestru grŵp o fyfyrwyr mewn neuadd breswyl.

Mae ffigurau⁵ a ryddhawyd gan Swyddfa'r Cabinet sy'n dadansoddi 'cyflawnrwydd' y gofrestr etholiadol yn dangos graddfa'r her.

Yn gryno, mae pobl ifanc yn llawer iawn mwy tebygol o fod yn byw mewn llety preifat ar rent; mae tenantiaid mewn llety preifat ar rent yn fwy tebygol o symud cyfeiriad; ac mae'r bobl sy'n fwy tebygol o symud cyfeiriad yn llai tebygol o fod ar y gofrestr etholiadol.

4 Am ragor o wybodaeth gweler: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/social-and-private-renters>

5 Swyddfa'r Cabinet, Dadansoddiad o Gofrestru Etholiadol (Gorffennaf 31 2013), ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/226739/Electoral-Registration-Analysis-CO.pdf Am ragor o wybodaeth, gweler The Electoral Commission: Great Britain's Electoral Registers, 2011: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/145366/Great-Britains-electoral-registers-2011.pdf, a'r diweddariad: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/169889/Completeness-and-accuracy-of-the-2014-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf



Mae data'r Comisiwn Etholiadol yn dangos
y drefn gyffredinol


O RAN OED

a chyfraddau cofrestru:

yr **hynaf** ydych chi,

y mwyaf tebygol yw hi y y
byddwch chi wedi'ch cofrestru i

bleidleisio



Ffigur 2: Lefelau Cofrestru yn ôl Oed (y DU, 2014)

Mae pobl dros 65 oed



bron ddwywaith

yn fwy tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio na rhai sydd yn **16 & 17** oed

Er eu bod yn gymwys i'w hychwanegu at y gofrestr etholiadol, mae'n ymddangos nad yw pobl 16 a 17 oed

YN CAEL EU CYNNWYS

mewn niferoedd cyfatebol



Cyfweliad Mitch Theaker

Etholwyd Mitch Theaker yn gynghorydd yn 2012, a phryd hynny fe oedd cynghorydd ifancaf Cymru a hefyd yr aelod cabinet ieuengaf drwy'r wlad. Yma mae Mitch yn esbonio sut y bu ei gysylltiad â fforymau ieuencid, ac yna'r blaid Lafur, yn fodd i'w arwain at wleidyddiaeth; yna mae'n edrych yn ôl ar fywyd fel uwch gynghorydd ag yntau'n aml iawn y person ieuengaf yn yr ystafell.

Fe ddechreuais i ymwneud â gwleidyddiaeth yn ifanc iawn pan gefais fy annog i gymryd rhan mewn fforymau ieuencid. Yna gofynnodd ffrind i mam oeddwn i am ddod i gyfarfod o'r blaid Lafur i weld beth oedd yn digwydd. Ar ôl y cyfarfod cyntaf roedd fy niddordeb wedi'i danio. Felly dechreuais i helpu gydag ymgyrch Cynulliad Jane Davidson. Ym Mhrifysgol Abertawe, ymunais i â Myfyrwyr y Blaid Lafur a Movement for Change. Bryd hynny roedd bod yn aelod yn golygu llawer mwy na dosbarthu taflenni a chanfasio'n unig – roedd yn golygu ymgyrchu dros newid. Dyna sut ddechreuais i fod yn weithgar.

Chefais i ddim addysg wleidyddol yn yr ysgol. Tydw i ddim yn cofio dysgu am wleidyddiaeth na phleidiau yn yr ysgol, na hyd yn oed dinasgyddiaeth a sut i gymryd rhan. Roedd cyngor ysgol yn bodoli. Dwi'n credu wnaeth nhw drefnu un yn fy ysgol i am ei fod yn ymrwymiad statudol, felly doedd dim un athro ag angerdd oedd yn credu bod rhaid dysgu dinasgyddiaeth yn iawn. Mae gan y cynghorau ysgol gorau rwyf i wedi'u gweld yr un athro ag angerdd hwnnw.

Mae rhai pobl yn ystyried cynghorau ysgol fel ymrwymiad statudol yn unig yn lle rhywbeth sy'n grymuso pobl ifanc; newid y meddylfryd mai oedolion yw'r unig rai sy'n gwybod beth sy'n dda i bobl ifanc. Pan fyddwch chi'n siarad â phlant yn yr ysgol gynradd, mae ganddyn nhw syniad gwych am sut beth ddylai polisi gwrth-fwlio fod.

Dechreuais i ymwneud â'r Ddraig Ffyni a bwrdd ymgynghorol y Comisiynydd Plant ac roeddwn i wrth fy modd; y syniad y gallen ni ddylanwadu ar bolisi. Problem fforymau ieuencid yw eu bod yn teimlo'n docenistaidd ac yn ticio blychau. Efallai ei fod yn ymwneud ag adeiladu

hyder a chynnwys mwy o bobl ifanc, ond rwy'n edrych yn ôl ac yn meddwl, wel, mae'n anodd nodi unrhyw newid pendant a ddaeth yn eu sgil. Mae Movement for Change wedi'i deall hi drwy ddod o hyd i faterion mae pobl ar lawr gwlad yn teimlo'n angerddol amdany'n nhw. Maen nhw'n ymwneud â phobl ar lawr gwlad, a sicrhau newid pendant.

Ar ôl gorffen yn y brifysgol, etholwyd Mitch yn Abertawe, pan gipiodd y blaid Lafur y cyngor. Fe'i penodwyd yn Aelod Cabinet dros Gyfleoedd i Blant a Phobl Ifanc, swydd y bu ynddi tan 2014 pan newidiodd y Grŵp Llafur oedd yn rheoli ei arweinwyr. Mae Mitch yn edrych yn ôl ar sut beth oedd bod yn uwch gynghorydd ag yntau'n ŵr ifanc

Mae'n gallu bod yn broblem ambell waith – os ydych yn trafod toriadau yn y gyllideb rydych chi'n tueddu i gael yr ymateb “Pam fod yna blentyn yn trafod toriadau cyllideb fy ysgol neu gymuned?” A phob yn awr ac yn y man rydych chi'n teimlo bod rhaid i chi ailsefydlu eich sgiliau a pham eich bod chi yno. Penododd yr arweinydd ar y pryd, David Phillips, fi ar sail fy CV pan nad oedd yn fy adnabod yn bersonol. Yr elfen negyddol oedd bod gan rai cynghorwyr Llafur, sy'n dal i fod yna nawr, ac yn aelodau o'r weinyddiaeth newydd rwy'n credu, ymdeimlad hen-ffasiwn o hawl. Rwy'n siŵr eu bod i'w cael ym mhob cyngor ac ym mhob maes, y bobl sy'n credu y dylen nhw gael swyddi am mai eu tro nhw yw hi. Dim byd i'w wneud â theilyngdod neu angerdd neu weledigaeth, ond pwy sydd wedi gwasanaethu hiraf.

Ond nid yr aelodau etholedig oedd yr unig beth roedd rhaid i Mitch ddelio ag e; roedd staff parhaol y cyngor yn aml yn creu trafferthion

Ambell waith roedden nhw'n meddwl eich bod yn hawdd eich trin, neu yn meddwl nad oedd

angen eich cymryd chi o ddifrif. Mae dau achlysur yn fy nwy flynedd a hanner fel aelod cabinet – dim llawer – pan fu'n rhaid i mi gysylltu â'r arweinydd, ond ar y cyfan roedden nhw'n iawn, ac roedd sgiliau'r bobl yn Abertawe yn rhagorol. Roedden nhw'r un mor frwdfrydig, a'u gweledigaeth yr un mor glir, yn enwedig y rhai oedd newydd eu penodi. Roedden nhw'n ei weld fel diwylliant cyffredin.

Rwy'n cofio ymweld ag un ysgol a doedd y plant ddim yn credu mai fi oedd y cynghorydd a'r aelod cabinet. A dywedodd yr athro “Mae'n ddrwg gen i, rwy'n credu eu bod yn disgwyl hen ddyn blin!”

Mae gan Mitch gyngor clir ar sut y gall y bobl sy'n penderfynu gynnwys pobl ifanc yn fwy

Dewiswch bynciau sy'n bwysig i bobl – ac mae nhw yno – a gwnewch i bobl gredu eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth, ac wedyn fe ddewn nhw i gymryd rhan. Mae rhywfaint o newid diwylliant hefyd – does dim posibil i'r cyngor fod yn gyfrifol am bopeth ym mywydau pawb. Yn America mae llawer mwy o ymgyrchu cymunedol ac ymwneud cymunedol. Felly pan fydd pobl yn sylweddoli eu bod yn gallu newid y ffordd mae eu dinas yn gweithio, neu sut mae llywodraeth genedlaethol yn gweithio, maen nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan. Cwestiwn arall yw a fyddwn i'n annog pobl ifanc i sefyll i gael eu hethol i'r cyngor!



Pleidleisio a 'bom amser y ganran bleidleisio'


Mae 'pleidlais i bawb' yn golygu mwy na'r hawl i bleidleisio yn unig; rhaid i ddinasyddion hefyd gael y cyfle i bleidleisio. Mae hawliau'n ddiystyr oni bai bod unigolion yn cael eu grymuso i'w hymarfer. Mae'r dull mae Cymru'n ei ddefnyddio i fwrw pleidlais wedi aros fwy neu lai yr un fath ers cenedlaethau. Pe bai'n fyw heddiw, mae'n debygol y byddai asiant etholiadol David Lloyd George yn deall sut mae Diwrnod Etholiad modern yn gweithredu.

Ar wahân i'r pleidlais bost a phleidleisio procsi, mae pleidleisio unigol yn debyg iawn i'r hyn ydoedd yn yr oes Edwardaidd – mae'n gyfyngedig i unigolyn yn ei gyflwyno ei hun ar ddiwrnod penodedig i orsaf bleidleisio mewn lleoliad penodedig.

Dros y blynyddoedd diwethaf, y duedd ar draws holl etholiadau cyhoeddus y DU yw bod canran y pleidleiswyr yn gostwng, gan gyrraedd y gwaelodion yn Etholiad Cyffredinol 2001 gyda 59% ac nid yw wedi adfer lefelau cyn-2001 ers hynny. Mae Cymdeithas Hansard wedi bod yn ceisio deall pam fod pobl yn troi i fwrdd o etholiadau ac yn 2014 cyhoeddodd ei 11eg Archwiliad o Ymgysylltu Gwleidyddol⁶ (ffigrau 3 a 4 isod). Er bod y canfyddiadau am gyflwr gwleidyddiaeth yn gyffredinol yn ddifrifol, mae'r lefel o anfodlonrwydd sy'n bodoli ymhlith pobl ifanc yn peri pryder penodol.

Mae llai na chwarter y bobl dan 25 oed a phrin draean o rai rhwng 25 a 34 yn bwriadu pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015. Er nad yw pobl hŷn yn gweithredu fel carfan anwahaniaethol wrth ddymuno cael dweud eu dweud, mae tua dwy ran o dair o bobl dros 65 oed yn bwriadu bwrw eu pleidlais. Ond y gred gyffredinol yw bod pobl hŷn bob amser wedi bod yn fwy tebygol o bleidleisio. Mae gan bobl iau 'bethau eraill i'w gwneud', ac mae dyletswydd ddinesig yr unigolyn yn aml yn ymddangos pan fydd yn byw bywyd mwy sefydlog, a phan fydd gan bobl fwy o fudd personol yng nghanlyniad unrhyw etholiad.

6 Am ragor o wybodaeth gweler Audit of Political Engagement y Gymdeithas Hansard (2014): <http://www.hansardsociety.org.uk/research/public-attitudes/audit-of-political-engagement/>



Figur 3: Yn Sicr am Bleidleisio / Dyletswydd i Bleidleisio i⁷ (yn ôl oed, DU, 2014)

Ond mae'r darlun hwn yn cymhlethu. Rhwng 1964 a 1997, cafwyd ffigurau amrywiol yn y 70au o ran canrannau pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol, gydag uchafbwynt o 79% yn etholiad cyffredinol cyntaf 1974 ac isafbwyntiau o 71 a 72% yn etholiadau 2001 a 1970 yn eu tro. Ceir sawl ffactor sy'n gallu effeithio ar y ganran bleidleisio. Ar wahân i ffactorau gwleidyddol fel cyflwr yr economi, neu boblogrwydd yr arweinwyr, mae hyd yn oed pethau fel y tywydd a chyflawnrwydd y gofrestr yn cael effaith.

Mae ffigurau⁸ (isod) a gyhoeddwyd gan Dŷ'r Cyffredin, yn defnyddio data Astudiaeth Etholiadol Prydain, yn dangos bod rhywbeth pryderus ar waith o fewn y lefelau pleidleisio'n gyffredinol. Mae'r bwllch rhwng y gyfran o bobl ifanc sy'n pleidleisio a gweddill y boblogaeth i'w weld yn cynyddu. Yn Etholiad Cyffredinol 1970, y ganran gyffredinol oedd 72%; 65% i

bobl 18-24 oed a 67% i bobl 25-34 oed. Erbyn 2005, y flwyddyn waethaf o ran pobl dan 24 oed yn pleidleisio, roedd y bwllch ar ei ehangaf; pleidleisiodd 61% o etholwyr, o'i gymharu â 38% yn unig dan 24. Er bod y bwllch wedi lleihau yn 2010 a gallai wneud hynny eto yn 2015, mae dau arsylwad allweddol sy'n destun pryder i'r Electoral Reform Society.


Yn gyntaf, y duedd tymor hir yw bwllch **cynyddol** rhwng y ganran o bobl ifanc sy'n pleidleisio a'r boblogaeth yn gyffredinol.

Yn ail, gan fod y gofrestr etholiadol yn llai cyflawn ar gyfer pobl ifanc, mae'r nifer o bobl ifanc o oed pleidleisio nad ydyn nhw ar y gofrestr (ac felly'n methu pleidleisio) yn denygol o guddio problem llawer mwy. Os bydd rhagor o bobl ifanc yn syrthio oddi ar y rhestr, megis crafu'r wyneb mae ffigurau fel y rhai uchod.

7 Y cwestiwn a ofynnwyd oedd "I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: 'Mae'n ddyletswydd arnaf i bleidleisio ym mhob math o etholiad'"

8 Gweler Astudiaeth Etholiadol Prydain (aillddadansoddi setiau data) Papur Ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin 03/59 Noder: Mae data 1964 a 1966 yn cyfeirio at bobl 21-24 gan fod yr oed pleidleisio'n 21 ac nid 18 ar gael yn www.parliament.uk/briefing-papers/SN01467.pdf.

% Boblogaeth Gyffredinol



Ffigur 4: Tabl yn dangos cyfraddau pleisleisio⁹

9 G Lodge, G Gottfried, S Birch, The Political Inclusion of Young People (Democratic Audit 2012), ar gael: <http://www.democraticaudit.com/wp-content/uploads/2014/02/Lodge-Gottfried-and-Birch-Young-People-and-Citizenship.pdf>

Cyfweliad Bethan Jenkins

Bethan Jenkins yw Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros Orllewin De Cymru. Fe'i hetholwyd yn 2007. Roedd diddordeb gan Bethan mewn gwleidyddiaeth o oedran cynnar iawn, ond dim ond yn ei dyddiau olaf ym mudiad y myfyrwyr y cafodd ei denu at wleidyddiaeth plaid

Rwy'n dod o deulu gwleidyddol, ond nid yn yr ystyr bleidiol. Roedd fy mam a nhad yn ymwneud â phrotestiadau yn erbyn cloddio glo brig a'r system apartheid yn Ne Affrica. Roedd hyn yn rhan normal o fy mywyd i.

Ond doeddwn i ddim yn wleidyddol yn yr ysgol. Fe ddechreuodd fy niddordeb mewn gwleidyddiaeth myfyrwyr yn y Brifysgol. Pan oeddwn i'n Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, roedd yr ymgyrch yn erbyn ffioedd dysgu'n un brwd. Roeddwn i hefyd yn rhan o'r mudiad heddwch pan ddechreuodd rhyfel Iraq, gan drefnu protestiadau yng Nghaerdydd hyd yn oed.

Roeddwn i'n hoffi'r elfen ymgyrchu, ond doeddwn i ddim yn aelod o blaid tan ddiwedd fy nghyfnod yn Llywydd. Roedd Plaid Cymru yn sefyll yn erbyn cynlluniau Llafur i ddod â ffioedd Myfyrwyr i Gymru. Fe ges i swydd gyda nhw yn ceisio trawsnewid y ffordd roedd pobl ifanc yn ymwneud â'r Blaid. Dyna pryd y des i'n rhan o'r Blaid gan weithio gyda Leanne Wood a Jill Evans.

Fe ddes i at y Blaid ar adeg anodd. Gofynnnon nhw i fi ddod i gyfrif yng Ngheredigion gan ddisgwyl y bydden nhw'n ennill, ac wrth gwrs colodd Simon [Thomas] ei sedd y noson honno. Ond roedd yn brofiad da cael gweld gwir caled gwleidyddiaeth. Rwy'n credu bod llawer o bobl yn dod at wleidyddiaeth gan feddwl sefyll fel AC neu gynghorydd a disgwyl ennill. Ond nid dyna wirionedd pethau – felly

ges i weld y gwirionedd caled o'r dechrau. A ches i ddim fy nigelonni!

Roedd Leanne [Wood] yn rhywun ifanc, gwahanol, oedd yn gallu siarad mewn ffordd oedd yn denu pobl ifanc at wleidyddiaeth ar eu telerau eu hunain – roedd hynny'n ddeniadol. Doeddwn i ddim yn gwybod dim byd am y Blaid pan oeddwn i'n tyfu i fyny, doedden nhw ddim ar yr agenda. Dim ond Llafur oeddwn i'n eu gweld a doeddwn i ddim yn teimlo eu bod yn fy nghynrychioli i a'r bobl ifanc oedd yn tyfu i fyny ym Merthyr. Roedd Plaid yn weladwy ac yn weithgar yn Aberystwyth, a doedd Llafur ddim yn gwneud dim byd yno – felly roedd dylanwadau newydd ac roedd hynny'n gyffrous hefyd.

I Bethan, roedd gwleidyddiaeth yn rhywbeth roedd rhaid iddi hi ei ddysgu, gan nad oedd y pwnc yn cael ei ddysgu na'i annog yn yr ysgol

Dyna un o'r prif resymau roeddwn i am astudio gwleidyddiaeth yn y brifysgol, oherwydd doedd dim cyfle i edrych ar wleidyddiaeth o gwbl yn yr ysgol.

Doedd hynny ddim yn golygu nad oedd gen i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn yr ysgol, ond doedd e ddim ar gael yno, a dim ffordd i'w wneud. Roedd cyngor ysgol, ond yr unig beth roedd hwnnw'n ei wneud oedd trefnu parti diwedd tymor. Mae'r ffordd maen nhw'n gweithio nawr mewn ysgolion wedi newid llawer, gan edrych ar bethau fel bwydlenni ysgol, a hyd

yn oed pa gyrsiau mae myfyrwyr am eu cael mewn rhai llefydd.

Un tro, daeth S4C i ailaddurno ystafell y chweched dosbarth ac roeddwn i wrth fy modd ein bod ni wedi gwneud rhywbeth llwyddiannus. Doedd hynny'n ddim byd gwleidyddol mewn gwirionedd, ond o leiaf roedden ni'n teimlo ein bod ni wedi newid rhywbeth.

Etholwyd Bethan yn Aelod Cynulliad yn 25 oed. Mae'n edrych yn ôl ar y dyddiau cynnar hynny, a'r pwysau i hyrwyddo materion pobl ifanc uwchlaw materion eraill

Roedd yn anoddach i fi ar y dechrau oherwydd cefais fy ethol fel menyw ar frig y rhestr – roedd llawer yn anghyfforddus â'r polisi ac roedd rhai pobl yn teimlo na ddylai pobl fel fi gael symud mor gyflym drwy'r blaid. Roedd y tensiwn hwnnw'n gyhoeddus hefyd oherwydd roedd rhaid cyfiawnhau eich hun ar bob tu, yn wahanol i bawb arall. Roedd bod yn ifanc ac edrych yn wahanol yn rhan o'r peth. Rydych chi'n teimlo bod rhaid i chi fod yn dda ym mhopeth rydych chi'n ei wneud neu bydd rhywun yn neidio arnoch chi. Mae llawer wedi newid ers hynny, gyda mwy o arweinwyr etholedig ifanc.

Fe gefais i ymgyrch mawr gyda phensiynwyr Visteon Abertawe oedd wedi colli eu pensynau gan Ford. Yr eironi yw fy mod i wedi cynnal mwy o ymgyrchoedd gyda phobl hŷn gan mai dyna'r problemau sydd wedi codi yn fy ardal i. Dyw hyn ddim wedi bod yn ymdrech fwriadol i *beidio* â gweithio gyda phobl ifanc; rwy'n dal i fod yn angerddol dros gael pobl ifanc i mewn i wleidyddiaeth.

Yr un broblem efallai yw eich bod yn cael rhywbeth fel portffolio plant a phobl ifanc yn hytrach na phethau eraill – ambell waith mae angen her wahanol ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i beidio â chael eich gosod mewn un maes yn unig.

Mae bod yn iau yn helpu i gyflwyno themâu newydd i'w trafod mewn pwyllgorau – rwyf i wedi cyflwyno pynciau na fyddai pobl eraill yn meddwl amdany'n nhw. A dyna pam ei bod hi'n bwysig cael mwy nag un neu ddau o bobl ifanc er mwyn bod yn gynrychioliadol o'r byd allanol.

Diwedddodd Bethan drwy sôn am y newidiadau sydd angen eu gwneud er mwyn denu mwy o bobl ifanc i mewn i wleidyddiaeth

Pleidleisio ar-lein – maen nhw'n defnyddio eu apiau a'u iPads yn naturiol – dydyn nhw ddim yn ei weld yn naturiol i fynd i'r orsaf pleidleisio. Mae angen i ni drawsnewid sut mae addysg wleidyddol yn cael ei dysgu yn yr ysgol. Mae problem fawr nad oes modd i chi fod yn 'wleidyddol' yn yr ysgol – ond mae angen i bleidiau gael eu gweld er mwyn i bobl ifanc gael gweld sut mae'r pleidiau'n gweithio. Mae rhai ysgolion yn mynd dros ben llestri'n poeni am hynny ac yn gwrthod gadael i chi fynd yno heb y pleidiau eraill i gyd ac mae'r cwbl yn chwalu.

Mae angen corff cryf i gynrychioli pobl ifanc. Yn fy marn i doedd y Ddraig Ffynici fyth yn ddigon cryf, ac mae wedi'i gofnodi fy mod i wedi dweud bod angen Senedd go iawn ar bobl ifanc. Byddai'n well gen i weld y Cynulliad yn ei gyllido yn hytrach na'i fod yn rhan o'r Llywodraeth, ond os oes angen i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn

ddod at ei gilydd i'w gyllido mae hynny'n iawn – does gennym ni ddim byd ar hyn o bryd.

Efallai y gallwn ni ddod o hyd i ffyrdd i hyrwyddo pobl ifanc i wneud pethau drostyn nhw eu hunain yn y gymuned o lawr gwlad i fyny. Pam na rown ni hyfforddiant ymgyrchu i bobl allu sicrhau sgiliau mewn dinasyddiaeth weithredol cyn i bethau godi – dyw hynny ddim yn rhywbeth sydd ar gael i bobl ifanc oni bai eu bod gydag Oxfam neu Amnesty neu rywbeth.

Mae gan Canada loteriau cenedlaethol o'r rhestr etholiadol, sy'n cyflwyno syniadau a pholisïau i'w cynnig i'r Senedd. Rwy'n credu y byddai'n syniad da rhoi cynnig ar hynny yng Nghymru.

Rydyn ni'n tueddu i edrych ar wleidyddion a dweud eich bod yn eu hethol nhw i wneud y gwaith a dyna ni, ac yna bleidleisio i gael gwared ohonyn nhw os nad ydyn nhw'n ddigon da. I fi, rwy'n wleidydd, ond yn rhan o dîm o bobl yn y gymuned. Rwy'n gweithio'n well gyda nhw nag ar ben fy hun - dyna sut rwy'n gweld gwleidyddiaeth. Dyna hoffwn i ei weld yn datblygu'n fwy na dim – cymunedau sydd wedi'u sathru'n fwy na neb, yn datblygu ffordd i ddweud "na, rydyn ni am ei wneud hyn ein hunain".



Addysg Wleidyddol a Dinasyddiaeth mewn ysgolion

“Mae angen i’n plant a phobl ifanc gael eu gwreiddio yn eu diwylliannau eu hunain a bod â hunaniaeth gref fel dinasyddion Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a’r byd ehangach. Er mwyn ennyn diddordeb dinasyddion rhaid meithrin y math o ddealltwriaeth o ddemocratiaeth, hawliau dynol, cyd-ddibyniaeth, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol a ddylai ffurfio eu barn bersonol a’u synnwyr o ymrwymiad. Bydd angen i blant a phobl ifanc allu delio â materion moesegol anodd a dadleuol fel y rheini sy’n codi weithiau o ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnolegau digidol. Mae dinasyddiaeth weithredol yn galw am yr hyder a’r cadernid sy’n sail i’r gallu i ddylanwadu a chymryd rhan mewn dadleuon bywiog. Dylid seilio’r hyder hwnnw ar wybodaeth dda a pharch at dystiolaeth.”

Yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru*¹⁰

Mae bod yn ddinesydd gweithgar wastad wedi golygu mwy na bwrw pleidlais yn unig. Yng Nghymru, fel yn yr Alban a Lloegr, mae'r berthynas rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd yn esblygu, a bydd dinasyddion yn gynyddol yn cymryd cyfrifoldeb am ffurfio mwy o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae sicrhau bod pobl ifanc yn wybodus ac yn gallu cymryd diddordeb felly'n hanfodol wrth ffurfio 'dyfodol llwyddiannus' i bobl ifanc yng Nghymru. Dylai ysgolion chwarae rhan drwy sicrhau bod gan bobl ifanc y gallu angenrheidiol i chwarae rhan weithredol yn y gymdeithas a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw'n uniongyrchol mewn hinsawdd economaidd anodd. Mae addysg wleidyddol a dinasyddiaeth mewn ysgolion yn ymwneud â dwy elfen sy'n atgyfnerthu ei gilydd: darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc am y modd mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru (rhoi gwybodaeth i ddisgyblion); a dysgu sgiliau ymarferol angenrheidiol i bobl ifanc er mwyn iddyn nhw gymryd rhan yn y ddemocratiaeth honno drwy gyfranogi yn yr ysgol (datblygu sgiliau disgyblion fel dinasyddion gweithredol).

Yn aml nid dyma sut mae pobl yn deall 'addysg wleidyddol'. Gall yr ymadrodd 'addysg wleidyddol' achosi anesmwythder ac arwain at inertia o fewn y proffesiwn dysgu. Mae Deddf Addysg 1996 (adran 406) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac awdurdodau lleol wahardd hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol pleidiol wrth addysgu unrhyw bwnc yn yr ysgol; a gwahardd gweithgareddau

gwleidyddol pleidiol gan ddisgyblion dan 12 oed yn yr ysgol. Mae Adran 407 yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw gymryd pob cam ymarferol rhesymol i sicrhau, pan fydd materion gwleidyddol neu ddadleuol yn cael eu dwyn i sylw disgyblion, eu bod yn cael eu cyflwyno'n gytbwys neu fod barn gyferbyniol hefyd yn cael ei chynnig.

Yn ei adroddiad dylanwadol ar Ddinasyddiaeth ac Addysgu Democratiaeth mewn Ysgolion, nododd yr Athro Bernard Crick yr heriau:

*'Mae addysgwyr yn ymwybodol y gall materion dadleuol hefyd fod yn faterion sensitif. Fe allai penaethiaid, llywodraethwyr ac aelodau o'r pwyllgor addysg lleol bryderu neu synio am y posibilrwydd y gallai rhieni ofni addysg â thuedd iddi a hyd yn oed ymdrechion i gyflyru eu disgyblion. Gellir deall bod rhai athrawon, yn enwedig athrawon newydd gyflawni, yn ddihyder wrth ymdrin â'r materion hyn.'*¹¹

Prin yw'r athrawon yng Nghymru a fyddai'n dadlau yn erbyn yr angen i ddisgyblion a phobl ifanc ddeall sut mae democratiaeth yn effeithio arny'n nhw. Felly, mae hyder yn eu gwybodaeth yn y pwnc a'u sgiliau eu hunain fel ymarferwyr yn rhan hanfodol o ddatblygu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth mewn ysgolion. Mae gweithio gyda disgyblion a phobl ifanc yn frain. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb am annog a datblygu meddyliau ifanc heb ddylanwadu a chyflyru. Mae hyn yn golygu bod angen datblygu athrawon uchel eu sgiliau sydd â gwybodaeth eang.¹²

11 Citizenship and the Teaching of Democracy in Schools (1998), ar gael: <http://dera.ioe.ac.uk/4385/1/crickreport1998.pdf>

12 Mae hyn yn adlewyrchu anghenion ehangach mewn Addysg yng Nghymru – mae Donaldson yn cadarnhau'r galw am athrawon â sgiliau a gwybodaeth uchel.

Mae adroddiad Crick yn cynnig arweiniad ar y math o addysg dinasyddiaeth y dylai ysgolion geisio ei datblygu:

“Dinasyddiaeth weithredol’ yw ein nod drwyddi draw ...mae’n amlwg bod modd i bob paratoad ffurfiol ar gyfer dinasyddiaeth fel oedolion gael ei helpu neu ei faglu gan ethos a threfniant ysgol, boed y disgyblion yn cael cyfle i ymarfer cyfrifoldebau a mentrau ai peidio; a hefyd a oes ymgynghori’n digwydd gyda nhw mewn modd realistig ar faterion lle gallai eu barn brofi’n berthnasol i redeg ysgol yn effeithiol ac i’w cymhelliant cyffredinol i ddysgu. Mewn rhai ysgolion, mae hyn yn ymarfer cyffredin eisoes, ond mewn eraill mae’n absennol neu’n achlysurol yn unig.”

Roedd cyhoeddi adroddiad Crick yn foment hollbwysig yn natblygiad addysg dinasyddiaeth yn y DU a thros y blynyddoedd dilynol dylanwadodd ar gyfeiriad polisi'r Llywodraeth yn San Steffan ac yn y cenhedloedd datganoledig. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn arloesol a dylai unrhyw werthusiad o ba mor bell rydym ni wedi dod o ran addysg dinasyddiaeth edrych unwaith eto ar ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Crick, i weld pa rai sydd yn dal heb eu rhoi ar waith.

Roedd nifer fawr o addysgwyr, awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yng Nghymru wedi cyfrannu at ganfyddiadau adroddiad Crick ac mae dylanwad yr adroddiad hwn i'w weld yn glir ar bolisi Llywodraeth Cymru o droad y ganrif ymlaen.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chyflwyno addysg dinasyddiaeth fel pwnc ar ei ben ei hun, ond yn hytrach ceisiodd ei gynnwys mewn tri maes o ddarpariaeth ysgol - Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a Bagloriaeth Cymru.¹³

Fel mae ein hastudiaeth achos yn dangos, gall ABCh gael effaith sylweddol ar yr ysgol gyfan, yn nhermau'r strwythur trefniadol ac ethos yr ysgol. Os caiff ei blaenoriaethu gan sicrhau adnoddau digonol, gall fod yn fuddiol ar gyfer agwedd ysgol-gyfan at addysg dinasyddiaeth. Mae ein hastudiaeth achos yn awgrymu bod cael adran ABCh benodol gyda phennaeth adran arbenigol yn gallu arwain at sicrhau bod ABCh yn ffwlcwrm pwysig rhwng anghenion y cwricwlwm ac anghenion llesiant disgyblion a gall arwain at sicrhau bod y ddwy agwedd o fywyd ysgol yn ategu ei gilydd. Ar y llaw arall, mae ein trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes yn dangos ei bod yn aml yn cael ei chyflwyno'n aneffeithiol, heb adnoddau digonol a heb statws.

Mae ERS Cymru yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i adolygu'n benodol a yw'r meysydd hyn yn ddigon trylwyr ac yn cynnig cyfle i ddisgyblion a phobl ifanc ddatblygu dealltwriaeth effeithiol o ddemocratiaeth yng Nghymru. Dylid addasu'r adolygiad i agenda Donaldson wrth iddi ddatblygu (gweler isod). Er mwyn tracio cynnydd tymor hir, dylid sefydlu adolygiad pob pum mlynedd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Cyfranogiad Disgyblion a Chynghorau Ysgol

Yn 2005 pasiodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru gael cyngor ysgol yn weithredol erbyn mis Tachwedd 2006¹⁴. Ar yr adeg honno Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud hyn yn orfodol yn ôl y gyfraith. Dyma'r templed ar gyfer rôl cynghorau ysgol hyd heddiw.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi bod cynghorau ysgol yn rhan hollbwysig o

flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynnwys ac ymgynghori â phobl ifanc ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, yn yr ysgol a thu hwnt.

*'Mae Cynghorau Ysgol yn darparu profiad ymarferol o wneud penderfyniadau a phrosesau democrataidd... Maen nhw'n caniatáu i blant a phobl ifanc gyfranogi'n effeithiol mewn ysgolion a thrafod a mynd i'r afael â materion o bryder iddyn nhw a'u hysgol.'*¹⁵

Nododd Estyn bwysigrwydd cynghorau ysgol yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2007, 'Cyfranogiad plant a phobl ifanc (3-11 oed) mewn materion gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau.'

Mewn ysgolion da, mae cyngor yr ysgol yn helpu i ddatblygu:

- medrau siarad, medrau gwrando a medrau personol a chymdeithasol disgyblion;
- agweddau cadarnhaol at ddinasyddiaeth a democratiaeth;
- lefelau da o hyder a hunan-barch.¹⁶

Yn 2011 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan o'i chyfraith ddomestig. Mae un o'r hawliau hyn ("Erthygl 12"), sy'n nodi hawliau plant a phobl ifanc i gyfranogi, yn datgan y dylai fod gan blant a phobl ifanc lais pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw.

Roedd penderfynwyr ar y pryd yn deall potensial cyfranogi gan ddisgyblion a chynghorau ysgol i sicrhau profiad ysgol gwell i bob disgybl, sefydlu prosesau penderfynu gwell, a chyflenwi sgiliau allweddol i ddisgyblion. Fodd bynnag, roedd ein trafodaethau yn ein sesiynau bwrdd crwn gydag arbenigwyr yn amlygu bod gwahaniaeth sylweddol o ran

ansawdd y profiad dysgu mewn perthynas â chyfranogiad disgyblion yn parhau mewn ysgolion ar draws Cymru. Er y bydd 'pegynau o ymarfer rhagorol' bob amser, mae'n glir nad yw hyn yn cael ei atgynhyrchu'n gyson.

Dylem wneud yn sicr o gael gwybod hyd a lled yr anghysondeb yma. Mae ERS Cymru yn argymhell fel rhan o'r Adolygiad Estyn a argymhellir uchod y dylai Estyn hefyd ymgymryd ag adolygiad o gyfranogiad disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Er mwyn tracio cynnydd dros y tymor hir, dylid sefydlu cylchoedd adolygu pum mlynedd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Dylid addasu'r adolygiad i agenda datblygol Donaldson (gweler isod).

14 Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Cyngor Ysgol (2005) ar gael: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/3200/contents/made>

15 <http://dera.ioe.ac.uk/4385/1/crickreport1998.pdf>

16 Estyn, 'Cyfranogiad plant a phobl ifanc (3-11 oed) mewn materion gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau - Mawrth 2007', t 15; ar gael: [http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/174829.2/Cyfranogiad%20plant%20a%20phobl%20ifanc%20\(3-11%20oed\)%20mewn%20materion%20gwneud%20penderfyniadau%20lleol%20sy'n%20effeithio%20ar%20eu%20bywydau%20-%20Mawrth%202007/?navmap=30,163](http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/174829.2/Cyfranogiad%20plant%20a%20phobl%20ifanc%20(3-11%20oed)%20mewn%20materion%20gwneud%20penderfyniadau%20lleol%20sy'n%20effeithio%20ar%20eu%20bywydau%20-%20Mawrth%202007/?navmap=30,163)

Mae ein trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes yn awgrymu fod ysgolion yn anghlir ynghylch y rôl y mae'r Cyngor Ysgol i fod i'w gyflawni. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae ERS Cymru yn argymhell y dylid gosod rolau a chyfrifoldebau clir y cynghorau ysgol ar sail statudol. Byddai hyn yn sicrhau dealltwriaeth gynyddol o rôl cynghorau ysgol a'r rhan y gallan nhw ei chwarae i gyfoethogi profiad ysgol a llesiant disgyblion. Bydd darparu arweiniad cliriach ynghyd â chymorth a hyfforddiant i athrawon hefyd yn helpu i sicrhau profiad mwy cyson o gyfranogi i'n holl ddisgyblion a'n pobl ifanc.

Mae ein hastudiaeth achos (Bite the Ballot – tudalen 50) yn awgrymu mai ymgyrchoedd i gofrestru pleidleiswyr dan arweiniad cymheiriaid yw'r ffordd fwyaf effeithiol i gyrraedd pobl ifanc. Gall cynghorau ysgol hefyd ddarparu rhwydwaith i helpu i gynyddu cofrestru pleidleiswyr drwy grwpiau cymheiriaid. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhan y gall cynghorau ysgol ei chwarae yn ennyn diddordeb disgyblion mewn cofrestru i bleidleisio drwy Gymru gyfan.

Adroddiad Donaldson a dyfodol addysg yng Nghymru

Mae addysg yng Nghymru ar fin gweld mwy o newid yn dilyn cyhoeddi adroddiad Donaldson ym mis Chwefror 2015.

Mae'r Athro Graham Donaldson yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod strategaeth gliriach sy'n pennu pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o gyflenwi addysgol, ac mae'n gweithio gyda phawb sy'n ymwneud ag addysg i osod gweledigaeth tymor hir ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn trafod adeiladu capasiti athrawon, proffesiynoldeb athrawon a chreadigrwydd athrawon.

Dywed Donaldson mai *'un o themâu canolog yr Adolygiad yw'r angen i fod yn glir ynghylch dibenion cyffredinol y cwricwlwm.'*

Mae Donaldson yn nodi pedwar prif ddiben:

'Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas¹⁷

Bydd athrawon yn cael eu calonogi o weld dadansoddiad o 'ddibenion y cwricwlwm' fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth ar ddyfodol addysg yng Nghymru. Mae gweledigaeth tymor hir gyffredin ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru'n hanfodol.

Y trydydd a'r pedwerydd diben sy'n taro nodyn gydag Electoral Reform Society Cymru. Sut gall disgyblion a phobl ifanc yng Nghymru fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd a 'byw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' heb ddealltwriaeth fwy effeithiol o'r modd mae democratiaeth a gwahanol lefelau o ddemocratiaeth yn effeithio arnyn nhw yng Nghymru? Mae cwestiynau pellach yn codi o ddatblygiadau fel y syniad o estyn etholfraint i bobl ifanc 16 oed (a gyhoeddwyd yn y Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi'). Oes gennym ni system addysg yng Nghymru sy'n paratoi disgyblion a phobl ifanc i deimlo'n ddigon hyderus i ymarfer eu hawl i bleidleisio?

Mae argymhellion adolygiad Donaldson yn ffurfio sail ar gyfer ymateb systematig i'r heriau hyn. Mae Electoral Reform Society Cymru yn edrych ymlaen at gyfrannu at ddatblygu agenda fydd yn caniatáu i bobl ifanc ddiwallu eu potensial fel 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd sy'n gallu 'deall ac ymarfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd.'¹⁹

Casgliad

Os ydym ni am fynd i'r afael o ddirif â difaterwch gwleidyddol, bydd rhaid i ni ystyried y rhan sydd gan ysgolion ac addysg i'w chwarae i sicrhau dealltwriaeth fwy effeithiol o ddemocratiaeth yng Nghymru.

Rhaid i ddisgyblion a phobl ifanc yn yr ysgol gael cyfle i ddeall y prosesau democrataidd sydd ar waith yn y wlad hon. Rhaid iddyn nhw gael cyfle i archwilio a thrafod y materion gwleidyddol sy'n fwyaf ystyrion iddyn nhw a deall drwy ymarfer eu hawliau bod eu pleidlais yn bwysig a bod modd iddyn nhw sicrhau newid.

Mae dinasyddion ifanc gwybodus yn hanfodol, nid yn unig er mwyn eu llesiant unigol eu hunain, ond er mwyn helpu Cymru gyfan i wynebu heriau'r dyfodol. Wrth i fodolau llywodraethu da symud at gael cymorth arbenigwyr o blith dinasyddion i ddatrys problemau, mae'n hanfodol ein bod ni'n wynebu'r her o roi'r modd i ddinasyddion ifanc helpu i greu dyfodol llwyddiannus i Gymru.

18 Powers for a Purpose (UK Government: 2015), ar gael: <https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales>

19 Adolygiad Donaldson, t 30; bydd ERS Cymru yn llunio adroddiad dilynol dros y misoedd nesaf yn cynnwys ein hymateb i'r agenda hwn sy'n datblygu.

cyfweiliad

Kirsty Williams

Kirsty Williams yw'r Aelod Cynulliad dros Frycheiniog a Maesyfed ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mewn cyfweiliad gonest, mae'n sôn am y pwysau oedd yn ei hwynebu fel gwraig ifanc yn dechrau arni mewn gwleidyddiaeth, gan esbonio pam na fydd hi byth yn cwestiynu wrth dderbyn rhodd.

Roeddwn i'n ffodus iawn o gael fy magu mewn cartref ble roedd newyddion, materion cyfoes a gwleidyddiaeth yn destun trafod. Bydden ni'n cael ciniawau dydd Sul mawr yn nhŷ Mam-gu ar ochr fy Mam ble y byddai dadlau brwd yn anochel ynghylch gwleidyddiaeth a digwyddiadau'r dydd.

Rwyf i hefyd yn meddwl fod gen i ddiddordeb ym materion y dydd. Rwy'n cofio bod â diddordeb brwd mewn Apartheid fel pwnc llosg a gwahardd fy mam rhag prynu ffrwythau o Dde Affrica yn ystod yr ymgyrch i ryddhau Nelson Mandela. Neidiais flwyddyn gan ddechrau astudio cyrsiau Lefel A yn 15 oed ac astudio gwleidyddiaeth a Llywodraeth gan fod gen i ddiddordeb gwirioneddol yn y pynciau hyn. Yn ystod y wers gyntaf dysgais am y system etholiadol ac rwy'n cofio meddwl "dyna ffordd gwbl annheg o ethol llywodraeth", ac rwy'n cofio bod yn gwbl gandryll am Dŷ'r Arglwyddi a'r syniad bod y bobl hyn yn gwneud penderfyniadau am fy mywyd i. Rwyf i hefyd yn credu bod hyn yn cyd-fynd â thyfu i fyny ym Mhrydain Thatcher pan oedd gwleidyddiaeth yn achosi rhwygiadau.

Aeth fy athro gwleidyddiaeth â ni i glywed Roy Jenkins yn siarad ym Mhrifysgol Abertawe. Rwy'n cofio mynd yn ôl i'r ysgol a dweud wrth yr athro 'Roedd hwnna'n anhygoel', a chael awydd i ymuno â'r Blaid Ryddfrydol. A dyna sut y gwnes i ddechrau cymryd rhan a dechrau mynd i gyfarfodydd fy mhlaid leol yn Llanelli, postio taflenni ac yn y blaen.

Wnes i ddim erioed ymuno â'r blaid gyda'r bwriad o gael fy ethol fel gwleidydd – byth, byth, byth, byth. Wnaeth e ddim croesi fy meddwl erioed mai dyna beth fyddwn i'n ei wneud. Ymunais i â rhai gwrthdystiadau ynglŷn â dileu grantiau myfyrwyr a chyflwyno benthyciadau pan oeddwn i'n fyfyrwr ym Manceinion, ond wnes i ddim cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth pan oeddwn i yno o gwbl.

Rwy'n credu mai'r hyn ddigwyddodd oedd bod yna isetholiad cyngor yn Llanelli ar ôl i mi adael y brifysgol, a daeth Peter Black i helpu a dywedodd "mae 'da ni isetholiad yn Abertawe, hoffech chi ddod i helpu?" ac atebais innau "Wrth gwrs, mi ddof i helpu". Ac yna dywedodd Peter, y dylwn i ddod i gyfarfod cenedlaethol Cymreig yn hytrach nag un Llanelli, a dywedais i, wrth gwrs, iawn, ocê.

Sefais yn etholiad cyffredinol 1997 am yr unig reswm y gallech chi, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad hwnnw pan oeddwn yn gweithio i Goleg Sir Gâr, gael amser i ffwrdd o'r gwaith os oeddech yn sefyll fel ymgeisydd. Roeddwn i'n weithgar y tu ôl i lenni'r ymgyrch ac felly dim ond er mwyn cael rhagor o amser i gymryd rhan yn yr ymgyrch y gwnes i sefyll i fel ymgeisydd. Rhywbeth ymarferol yn unig oedd bod yn ymgeisydd yn Ogwr ym 1997.

Cymerodd Kirsty fwy o ran yn ystod ymgyrch y refferendwm le Dros Gymru ym 1997, ac arweiniodd "cyfres o gyd-ddigwyddiadau" at nifer o gyfleoedd i gamu'n nes at y blaen

Roedd yna raglen o'r enw The Midnight Hour a dywedodd y cynhyrchydd wrth David: "O diar, rhaid i ni wneud rhaglen ar ddatganoli yng Nghymru, a rhaid i ni gael un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, gorau oll os mai menyw yw hi gan fod pawb arall ar y panel yn ddynion" a dywedodd David "mae gen i'r union ferch i chi!" ac felly es i i Lundain i wneud The Midnight Hour. Doedd dim clem gen i, felly am beth anhygoel i ddigwydd.

Gwnes i lawer i'r cyfryngau am yr angen i bleidleisio ie. Cafwyd y canlyniad ac yna cefais alwad ffôn yn dweud "mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ofyn i chi fod yn aelod o Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol" – doeddwn i ddim yn credu'r peth, ond roedd yr alwad yn un ddilys.

Cafodd llyfr rheolau ei ysgrifennu gan Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Cynulliad newydd ac roedd hyn yn sbardun i'w hethol ym 1999. Os mai Kirsty oedd 'y wraig ifanc docenistaidd', doedd hi ddim am weld o chwith ynghylch hynny.

Mae'n fendith ac yn felltith fel ei gilydd. Mae Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol yn enghraifft glasur ac wrth edrych yn ôl arno nawr does dim modd beio pobl am feddwl "beth ar y ddaear sydd ar feddwl Ron Davies", pan chi'n gwybod, doeddwn i ddim yn brofiadol iawn ac roedd yna lawer o bobl yn y blaid â mwy o brofiad nag oedd gen i. Dyna pryd y cewch chi lawer o bobl yn bod yn negyddol iawn, yn meddwl bod eich ieuencid a'r ffaith eich bod yn ddibrofiad yn broblematig ac maen nhw'n ei ddefnyddio yn eich erbyn. Yn yr un modd, bryd hynny, roeddwn i'n ddefnyddiol iawn – yn ticio dau flwch, a byddai pobl yn rhoi caniatâd i chi wneud stwff am fod rhaid iddo gael ei wneud a gwnes i gofleidio'r elfen docenistaidd yn llwyr. Roedd rhai pobl yn gofyn i mi 'Ydych chi'n grac am y peth?' Dim o'r fath beth – roedd yn rhoi'r cyfle i mi wneud stwff a chofleidiais bob cyfle.



Kirsty Williams

Mae'n ffon ddwybig – ar y naill law roedd yn gyfle i chi wneud rhywbeth nad oedd modd i chi ei wneud fel arall, a gallech chi ddefnyddio hynny yn y cam nesaf. Ond ar y llaw arall, gall fod yn anodd goresgyn rhagfarnau rhai pobl. Am bob person oedd yn dweud “allwch chi ddim, mae hi'n rhy ifanc, rhy ddibrofiad” byddai yna bobl fel Alex Carlile a fyddai'n dweud “gadewch lonydd iddi, mae'n rhaid iddi hi ddysgu, gadewch iddi hi ei wneud”; pobl fel Ron Davies oedd yn siarad o'm plaid i. Am bob person a fyddai'n dweud “na” roedd yna rywun yr un mor ddylanwadol yn y sefydliad yn dweud “gall, gall hi wneud hyn”. Ac felly yn sgil hynny, roedd rhaid i mi ddod o hyd i rywle i sefyll. Cefais lawer o gymorth a chefnogaeth gan Evan Harris i fynd ati i gael fy newis; roedd e'n gwybod beth oedd ei angen i ennill enwebiad pan nad ydych chi'n geffyl blaen, ac yn sicr, doeddwn i ddim yn geffyl blaen.

Pan gafodd hi ei hethol, bu'n rhaid i Kirsty dorchi ei llewys ar unwaith

Roedd yn fedydd tân i mi oherwydd yn annisgwyl i mi gefais fy ethol yn gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, yn gwbl ddamweiniol. Roedd Mike German wedi dynodi swyddi yn syth ar ôl i ni gael ein hethol, gan dybio y byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cadeirio'r Pwyllgor Addysg dan law Jenny Randerson. Ond y Pwyllgor Iechyd a gawsom ni yn y diwedd. Felly roedd e mewn dipyn o bicil wedi hynny achos roedd e eisoes wedi cyhoeddi pwy oedd y llefarwyr a doedd dim modd iddo fy niswyddo ar ôl 5 diwrnod!

Felly, oedd, mi oedd yn fedydd tân ac roedd yn anodd iawn bod yn y safle hwnnw ac ennill hygredd.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn dda iawn; roedd pethau'n anoddach gyda'r Gwasanaeth Sifil. Rwy'n cofio'r g r oedd â chyfrifoldeb dros yr adran bryd hynny, a'r olwg o ddirmyg llwyr ar ei wyneb pan fyddai'n rhaid iddo fy mrriffio. A gallaf ddweud, wrth edrych yn ôl, na allwch eu beio nhw'n llwyr. Unwaith yn rhagor, roeddwn i'n ffodus, roedd gen i glerc anhygoel i'r pwyllgor oedd yn dda iawn, ac roedd llawer o bobl yn barod i roi cyfle i mi. Rhaid i chi gydnabod yr hyn nad ydych yn ei wybod, does dim diben ceisio twyllo'ch ffordd drwy sefyllfa o'r fath. Lwyddwch chi ddim i wneud hynny. Felly do,

aethon ni i chwilio am help, ac roedd pobl yn barod i'w roi. Ond wyddoch chi, roeddwn i'n dod ar draws hyn drwy'r amser – roedd pobl yn gwybod eu bod nhw'n mynd i gwrdd â menyw, ond os oeddwn i'n mynd lawr grisiau i gwrdd â nhw fy hun roedden nhw bob amser yn meddwl mai'r ysgrifenyddes oeddwn i. Bob tro!

Ac i wleidyddion iau, mae yna set newydd o heriau personol

Mae pobl yn cyrraedd safleoedd o b er yn llawer iau. Mae Carwyn [Jones] bedair blynedd yn hŷn na mi, Leanne [Wood] rai misoedd yn iau na mi, ac Andrew [RT Davies] rywle yn y canol. Daw arweinyddiaeth wleidyddol â'i heriau ei hun ar yr oedran hwnnw. Mae Carwyn a minnau wedi cael y sgwrs ynghylch heriau arweinyddiaeth wleidyddol pan fo gennych chi deulu ifanc. Mae'n wahanol i'r ffordd roedd pethau i arweinwyr yn y gorffennol – roedden nhw'n cyrraedd statws prif weinodog ar ôl i'w plant dyfu i fyny. Rwy'n credu mai Blair oedd y cyntaf ers tro byd i fod â phlant bach. Mae hynny'n un anfantais; dyw diwylliant a disgwyliadau ddim yn newid er gwaetha'r ffaith bod arweinwyr yn iau a bod ganddyn nhw deuluoedd.

I Kirsty, roedd bod yn ifanc a hefyd yn fenyw yn golygu pwysau cyhoeddus ychwanegol

Roedd yna lawer o sylw oddi wrth y cyfryngau – ac wrth edrych yn ôl, wnes i ddim delio â phopeth yn dda iawn. Petawn i'n derbyn rhywun mor ifanc a dibrofiad â hynny i ymuno â grŵp y Cynulliad hoffwn i feddwl y bydden ni'n eu helpu nhw'n well drwy'r broses. Doedd dim byd maleisus am y peth, ond byddai wedi bod yn braf cael mwy o help nag y cefais i. Cael eich dwrdio am eich gwisg, bod yn ofalus ynghylch ble roeddech chi'n mynd – am ffordd wallgof o fyw yn eich ugeiniau! Roedd rhai yn y blaid leol hyd yn oed yn meddwl bod ganddyn nhw'r hawl i gael barn ar fy narparŵr! Dydw i ddim yn credu bod pobl yn ymwybodol o ba mor andwyol mae'n gallu bod ar eich bywyd personol.

O'r Ddraig Ffyncci i Gynulliaid Cenedlaeth ol Ieuenctid Cymru

Y Ddraig Ffyncci oedd fersiwn Cymru o Senedd Ieuenctid Genedlaethol. Fe'i sefydlwyd yn 2002 gyda chyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Mewn newid dadleuol, torrwyd y cyllid ym mis Gorffennaf 2014. Mi adawodd hyn Cymru fel yr unig genedl yn Ewrop heb fersiwn o Senedd Ieuenctid Genedlaethol.

Sefydliad yn cael ei arwain gan pobl ifanc oedd y Ddraig Ffyncci a sefydlwyd i "gynnig cyfle i bobl ifanc hyd at 25 oed gael gwrandawriad ar y materion sy'n effeithio arnynt." Roedd y Cyngor Cyffredinol yn cynnwys 100 o bobl ifanc, gyda 4 o bob un o Awdurdodau Lleol Cymru, a 12 o seddi wedi'u cyfethol o gyrff eraill. Roedd hefyd yn darparu fforymau o fewn yr Awdurdodau Lleol. Ei gylch gwaith oedd helpu i gyflawni Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, hwyluso lleisiau a chyfranogiad pobl ifanc ar lefel genedlaethol.

Mae rhywfaint o feirniadaeth wedi bod o drefniant y Ddraig Ffyncci. Yn benodol, y ffaith fod y cyllid a'r trefniadau'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddem ni'n dadlau bod hyn yn tanseilio annibyniaeth y Ddraig Ffyncci, ac yn ei gwneud yn anodd i'r corff ymgysylltu ag Aelodau Cynulliad mainc gefn. Roedd hefyd yn ei wneud yn fwy dibynnol ar flaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru na phe bai'n gysylltiedig â Chomisiwn y Cynulliad (sy'n ymdrin â chorff corfforaethol y Cynulliad yn debyg i swyddogaeth y Llefarydd yn San Steffan). Mae'n bosibl fod y cyswllt cyllido hanesyddol rhwng y Ddraig Ffyncci a Llywodraeth Cymru yn mynd yn ôl at y diffyg gwahaniaeth rhwng corff corfforaethol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru pan sefydlwyd y Ddraig Ffyncci yn 2002.

20 Sesiwn tystiolaeth y Pwyllgor Deisebau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3 Chwefror 2015. Trawsgrifiad ar gael:
<http://www.senedd.assembly.wales/documents/s36571/3%20February%202015.pdf>

21 Y ddeiseb i'w gweld yma: <http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=10929&Opt=0>

Cyfweliad craig Williams

Cynghorydd i'r Blaid Geidwadol yw Craig Williams. Mae eisoes wedi sefyll dros y blaid yn y ddau etholiad Cynulliad diwethaf a bydd yn ceisio cael ei ethol i'r Senedd yng Ngogledd Caerdydd yn 2015. Yma mae Craig yn egluro mai cyflawni pethau brofodd rym gwleidyddiaeth iddo.

Dwi ddim yn cofio'r pwnc lleol ar y pryd, ond rwy'n cofio teimlo'n rhwystredig am rywbeth. Roedd fy nhad-cu'n warden yn yr eglwys, ac yn cynnal cyfarfodydd plwyf, ac fe es i gwplw o'r cyfarfodydd hyn a gweld bod 'na rywbeth oedd ddim yn digwydd yn rhywle. Rwy'n cofio holi "Pam?" a mynd i weld Glyn Davies, gan taw fe oedd fy Aelod Cynulliad ar y pryd – mae bellach yn AS. Fe helpodd i ddatrys y broblem ac felly dyma fi'n meddwl "O, dyna chi, rydych chi'n gallu gwneud gwahaniaeth." Fel person ifanc yn cerdded i mewn i swyddfa AC, holodd Glyn "Oes diddordeb gennych chi mewn gwleidyddiaeth?" ac fe dyfodd y peth o'r fan honno.

Taniodd y diddordeb oherwydd bod problem gen i. Fe helpais i ddatrys y broblem a meddwl: ti'n gwybod os oes gen ti broblem, cwyd oddi ar dy din a gwneud rhywbeth amdano.

Y syniad o 'godi oddi ar dy din a gwneud rhywbeth amdano' arweiniodd fi at y blaid Geidwadol. Ac wrth gwrs doedd y cysylltiad â Glyn ddim yn beth drwg, ac fe anogodd fi o'r ochr yna. Astudiais lefel A mewn gwleidyddiaeth yn y coleg ac roedd undeb myfyrwyr yno. Fe ddes i'n Bennaeth yr undeb, ac aeth pethau ar i lawr o'r fan honno!"

I Craig, arweiniodd un peth at y llall yn wleidyddol

Digwyddodd y peth yn organig, oherwydd fe daniodd fy niddordeb ac yna dechreuais i chwarae mwy a mwy o ran yn y blaid. Cefais gynnig swydd gan Nick Bourne yng Nghaerdydd. A dyma fi yng Nghaerdydd, yn cael fy nal gan un o'n Cymdeithasau – Gorllewin Caerdydd. Ac yn sydyn iawn roedd pobl yn edrych o gwmpas a dweud "mae yna bobl ifanc yma – beth sy'n digwydd? Pam ydych chi yma?" Ac yn sydyn dyma'r Cadeirydd yn ymuno â'r sgwrs ac yn cydio ynoch chi a dweud ei fod am i chi gymryd rhan, mae angen pobl ifanc. Ac yna dyma chi'n eich cael eich hun yn yr etholiadau lleol yn enwedig, gyda phobl yn chwilio am ymgeiswyr mewn seddi nad oes modd i ni eu hennill er mwyn rhoi cynnig arni ac ennill profiad.

Roeddwn i'n sefyll yn erbyn Rhodri Morgan yn fy ymgais gyntaf ar gyfer y Cynulliad – felly doedd honno ddim yn un o'n seddi targed! Ond fe fwynheais fy hun, ac a bod yn deg roedd Rhodri'n dda iawn, yn gweld person ifanc yn mynd i mewn i wleidyddiaeth ac yn rhoi cynnig arni. Ac roeddwn i'n mwynhau'r trafod, yn mwynhau mynd allan i gyfarfod â phobl – pob agwedd o'r gwaith.

Yn ôl Craig gall ieuencid fod yn gyfle

Rydych chi'n hawdd eich gweld yn gyflym mewn unrhyw gyfarfod neu amgylchedd gwleidyddol. Mae hynny'n gyfle i chi oherwydd mae pobl am roi cymorth i chi fynd yn eich blaen, oherwydd maen nhw am weld y genhedlaeth nesaf i ddod i redeg y blaid. Yn enwedig yn y rhan fwyaf o'n cymdeithasau sydd drwy'r amser yn meddwl "pwyl sy'n mynd i gymryd yr awenau, pwyl sy'n mynd i edrych ar ei ôl ar fy ôl i?" Ac os mai chi yw'r person ifanc yn yr ystafell, mae un ohonyn nhw'n mynd i gydio ynoch chi.

Felly dyna'r cyfle, ond hefyd mae gan bawb farn a chynngor, sydd ddim yn beth drwg. Ond mae ganddyn nhw bob amser farn glir iawn am yr hyn *ddylech* chi fod yn ei wneud. Dyna maen nhw'n disgwyl i chi ei wneud a chi yw'r gwas bach a rhaid i chi wneud y pethau hyn cyn unrhyw beth arall. Felly mae cyfleoedd a heriau hefyd.

Dwyf i ddim yn siŵr ai bod yn hŷn neu wasanaethu am gyfnod hirach sy'n golygu eich bod yn cael mwy o amser a pharch. Oherwydd pan fyddwch chi'n dod i mewn i unrhyw sefydliad newydd mewn unrhyw faes dydych chi ddim yn adnabod y system, dydych chi ddim yn gwybod y trefniadau iawn ac mae'n rhaid i chi roi cynnig arni. Rydych chi'n dysgu'r pethau iawn i'w gwneud a sut i gyflawni rhywbeth.

Pan oeddwn i'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Craffu ar gyfer gwasanaethau i oedolion rwy'n credu fy mod i'n dod â dimensiwn ychwanegol nad oedd rhai o'r cynghorwyr hŷn yn ei weld efallai, ac yn hybu'r materion hynny. Fodd bynnag dydych chi ddim am gael eich labelu fel person sy'n siarad am faterion pobl ifanc drwy'r amser. Rwy'n ofalus iawn i gofio fy mod yn dod o ongl benodol ac agwedd benodol ac mae'n bwysig fod hyn yn cael llais, ond yn yr un modd dydych chi ddim yn mynd i gael eich parchu os ydych chi'n gwneud dim mwy na neidio i fyny ac i lawr am un mater. Mae'n ymwneud â

chymhwyso'r persbectif hwnnw'n eang, yn hytrach na meddwl bod materion pobl ifanc yn berthnasol i wasanaethau pobl ifanc yn unig, a dyna broblem y cynghorau hefyd – mae pobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau i gyd.

Yn olaf, mae Craig yn trafod pam fod pobl ifanc efallai'n teimlo nad oes ganddyn nhw gyswilt â gwleidyddiaeth

Rwy'n credu ei fod yn fater o genhedlaeth – bellach mae'n dwy neu dair cenhedlaeth. Maen nhw'n colli cysylltiad am fod eu rhieni'r un fath. Dydyn ni ddim yn delio â'r genhedlaeth gyntaf o bobl sydd wedi torri'r cysylltiad â gwleidyddiaeth, rydyn ni'n delio â'r ail, efallai'r drydedd genhedlaeth sy'n meddwl nad yw gwleidyddiaeth yn gweithio iddyn nhw na'u teulu a'u cyfeillion, neu nad yw'n gweithio'n ymarferol.

Fe ges i enghraifft ymarferol iawn o pam rwy'n cymryd rhan – fe welais i broblem a'i gweld yn cael ei datrys oherwydd gwleidyddiaeth. Ond oni bai eich bod chi wedi gweld hynny, pam ar y ddaear fyddech chi'n dangos diddordeb?

Mae angen i chi weld gwahaniaeth. Ac rwy'n credu ein bod ni'n gwaethygu. Yn enwedig yng Nghaerdydd, rydych chi'n gweld ymgynghori diddiwedd ar bopeth. Mae ymgynghoriadau fel pe baen nhw wedi'u penderfynu o flaen llaw, ac rwy'n credu bod hynny'n ofnadwy mewn gwleidyddiaeth oherwydd mae'n cadarnhau popeth mae pobl yn ei gredu sef nad ydyn nhw'n gwrandao arnon ni. Mae angen i wleidyddiaeth ddeffro a chael ymgynghoriadau a refferenda go iawn ar faterion – sawl gwaith cafwyd refferendwm yr UE yn lwerddon cyn cael y canlyniad 'cywir' – wel nid refferendwm yw hynny, nage?"



Oed a bywyd cyhoeddus yng Nghymru

Mewn democratiaeth gynrychioliadol dylai'r bobl sy'n cael eu hethol adlewyrchu'n fras y pobl sy'n eu hethol. Fel y dangosodd ein Hadroddiad cyntaf ar Bŵer yng Nghymru, *Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus*, mae rhywbeth o'i le pan fydd mwy na hanner poblogaeth Cymru yn fenywod, ond dros dri chwarter o'r cynghorwyr lleol yn ddynion.

Er nad yw'n realistig disgwyl i'n sefydliadau gwleidyddol fod yn adlewyrchiad union o'r boblogaeth mae nhw'n ei gwasanaethu, dylai anghydraddoldeb hanesyddol parhaus beri pryder.

Mae sicrhau amrywiaeth o oedrannau i bennu penderfyniadau yn ychwanegu gwerth i'r broses wleidyddol. I ddechrau, caiff mwy o amrywiaeth barn a phrofiadau eu cynnwys a'u clywed. Mae gwahanol oedrannau'n cynnig persbectifau gwahanol ar broblemau cyffredin. Mae gan bobl iau brofiadau gwahanol ac anghenion gwahanol. Mae nhw'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol, ac fel dinasyddion, mae ganddyn nhw lawn gymaint o hawl i ffurfio'r gwasanaethau hynny ag sydd gan bobl o oedrannau eraill.

Ac er bod cyrff cyhoeddus yn gallu cyflwyno mesurau sy'n cynnwys pobl ifanc yn fwy, mewn democratiaeth gynrychioliadol, does dim byd yn cymryd lle ethol pobl o bob oed i swyddi perthnasol.

Ar sail oedran, pa mor gynrychioliadol yw cyrff cyhoeddus Cymru?

Y Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan – yn cynrychioli pob oed: Ydyn neu Nac Ydyn?

Gwelwyd tueddiad dros y blynyddoedd diweddar i bleidiau gwleidyddol ethol arweinwyr iau. Nicola Sturgeon yw'r pennaeth llywodraethol cyntaf yn unrhyw le yn y DU i gael ei geni yn y 1970au. Ac eithrio Gordon Brown, ymgwymerodd pedwar prif weinidog diwethaf y DU â'r swydd yn ystod eu 40au.

Pan oedd arweinwyr y saith brif blaid wleidyddol ym Mhrydain Fawr yn cyfrannu mewn dadl deledu, roedd pawb ond un yn eu 40au (gyda Nigel Farage ond newydd gyrraedd ei 50au). Yn ymuno yn y ddadl fyddai David Cameron (48), Natalie Bennett (48), Nick Clegg (47), Ed Miliband (44) Nicola Sturgeon (44), a Leanne Wood (43).

Yng Nghymru, mae'r pedwar arweinydd plaid yn y Cynulliad dan 50 oed. Etholwyd Carwyn Jones, sydd bellach yn 47, yn AC dros Ben-y-bont yn 32 oed ac yn Brif Weinidog yn 42. Mae arweinydd yr wrthblaid, Andrew RT Davies yn iau na'r Prif Weinidog, fel y mae arweinydd Plaid; ac mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, yn iau fyth yn 43 oed, ar ôl cael ei hethol yn arweinydd y blaid yn 37. Chwalwyd y record hon ym mis Rhagfyr 2015 gydag ethol Kezia Dugdale yn ddirprwy arweinydd


Llafur yn yr Alban ac arweinydd de facto yr wrthblaid yn Holyrood yn 33 oed.

Ond os yw ein harweinwyr gwleidyddol, fel swyddogion yr heddlu, i'w gweld yn mynd yn iau ac yn iau, a yw tra-arglwyddiaeth pobl hŷn yn ein sefydliadau gwleidyddol hefyd yn lleihau? Yn fyr, nac ydy.

Mae'n wybyddus fod y Cynulliad Cenedlaethol, a etholwyd am y tro cyntaf yn 1999 gyda chyhoedduswydd sylweddol i'w record ar gydraddoldeb rhyw ac ieuenctid, yn prysur ddatblygu i fod yn sefydliad mwy gwrywaidd, ond mae hefyd yn heneiddio. Oed ACau ar gyfartaledd pan etholwyd y Cynulliad cyntaf yn 1999 oedd 47, gan 'aeddffedu' i 50 yn 2003 a 2007, a 54 yn 2011. Un elfen amlwg wrth gwrs yw deiliadaeth ('*incumbency*') ac wrth i ni agosau at y set nesaf o etholiadau ar gyfer y pumed cynulliad, bydd mwy o'r aelodau a ymunodd yn 1999 a 2003 yn ymddeol, a allai agor cyfleoedd i olynwyr iau.

Oed ACau ac ASau ar gyfartaledd yw 54 a 55 yn eu tro; ac ar gyfartaledd 51 oedd oed yr ymgeiswyr llwyddiannus yn etholiad cyffredinol 2010 ac etholiad cynulliad 2011.


Ffigur 5: Oedran ACau (adeg yr etholiad & etholwyd yn gyntaf)



22 Yn cynnwys leuan Wyn Jones a'i olynnydd Rhun ap Iorwerth (oed adeg yr etholiad)

23 Yn cynnwys Peter Law a'i olynnydd Trisha Law (oed adeg yr etholiad)

Ffigur 6: Oedran ASau (adeg yr etholiad & etholwyd yn gyntaf)



24 Yn cynnwys Alun Michael a'i olynnydd Stephen Doughty (oed adeg yr etholiad)

25 Yn cynnwys Peter Law a'i olynnydd Dai Davies (oed adeg yr etholiad)

26 Yn cynnwys Ray Powell a'i olynnydd Huw Irranca-Davies (oed adeg yr etholiad)

Llywodraeth leol – sut mae Cymru'n cymharu â gweddill y DU?

Tra bo pobl ifanc yn brwydro i wneud eu ffordd i mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd, y broblem wirioneddol yng Nghymru yw llywodraeth leol. Er i gyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ron Davies, arwain y ffordd yn 1970, gan ddechrau fel arweinydd awdurdod lleol ieuengaf y DU yng Nghyngor Dosbarth Trefol Machen, mae'r darlun heddiw ar draws llawer o'r wlad yn dangos bod cynrychiolaeth yn gwyo'n gryf iawn i ffwrdd oddi wrth bobl ifanc.


Canfu'r Panel Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol dan gadeiryddiaeth yr Athro Laura MacAllister mai oed cynghorwyr yng Nghymru ar gyfartaledd oedd 60²³. Yng Nghymru, fel yn Lloegr, mae cynghorwyr yn hŷn ar gyfartaledd nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Cymru a Lloegr yn dal i ddefnyddio trefn y cyntaf i'r felin, tra bo'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi symud at y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV). Mae STV yn lleihau yn sylweddol y nifer o seddi diogel ac yn yr Alban mae wedi sicrhau bod cystadleuaeth ym mhob sedd (yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru lle cafodd dros 96 o ymgeiswyr eu hethol yn ddiwrthwynebiad yn 2011, oedd yn golygu bod 140,000 o ddinasyddion heb lais drwy bleidlais). Gydag STV mae etholiadau'n fwy cystadleuol, ac yn agor cyfleoedd i bleidiau hybu ymgeiswyr iau.

Yng Ngogledd Iwerddon mae yn agos i un ym mhob pump (17%), ac yn yr Alban un ym mhob deg (9.9%) o gynghorwyr lleol yn 39 oed neu iau, o'i gymharu â Chymru sydd â 6.8% a Lloegr 7.7%.

Yn y band canol oed, mae Cymru a Lloegr unwaith eto yn llusgo'r tu ôl i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae ychydig dros draean o gynghorwyr Cymru ac ychydig dan draean o gynghorwyr Lloegr yn 'ganol oed' (40-59), o'u cymharu â llai na hanner yn yr Alban (44.9%) a Gogledd Iwerddon (47%). Mae ymhell dros hanner cynghorwyr Cymru dros 60 (56.8%), ffigur tebyg i Loegr (59.4%) ond y ganran o bobl dros 60 oed yn yr Alban yw 45.2% a 34% yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ganran o
GYNGHORWYR YNG NGHYMRU
 sydd dros **70** oed
 YR YN FATH â'r ganran
 sydd
 dan **50**

27 Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth, Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru (2014), ar gael: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/140305-expert-group-report-cy.pdf>



Ffigur 7: Oed Cynghorwyr Ledled y Deyrnas Unedig

Ym mis Tachwedd 2012, anfonodd ERS Cymru gais rhyddid gwybodaeth at bob un o'r 22 cyngor yng Nghymru, oedd yn cynnwys cwestiwn ar broffiliau oed eu cynghorwyr. Ymatebodd 16 o Gynghorau. Doedd dim data gan 3 chyngor, neu doedden nhw ddim yn teimlo y gallen nhw ryddhau'r data ar oed. Fodd bynnag darparodd 13 cyngor ddata i ni. Er nad yw'n gynhwysfawr, mae 13 allan o 22 cyngor yn sampl da, a gyda 779 o gynghorwyr yn cael eu cynnwys, mae hwn yn 'snapshot' defnyddiol, sy'n cwmpasu bron i ddwy ran o dair o gynghorwyr Cymru. Mae proffiliau oed y data hwn yn gywir o fis Rhagfyr 2012.

Mae'n glir fod cynghorwyr Cymru'n tueddu i glystyru o gwmpas proffil oed 60-74. Mae 46.6% o'r holl gynghorwyr yn yr arolwg yn dod i mewn i'r band hwn. Y proffil oed mwyaf cyffredin nesaf yw 45-59 blwydd oed, ond dim ond yng Nghyngor Gwynedd mae mwy yn y band oed hwn nac yn y band 60-74 o ran y nifer o gynghorwyr yn yr oedran hwnnw, er eu bod yn gyfartal o ran nifer yn Wrecsam hefyd.

Fe welwn mor anghydradd yw'r proffil oed wrth edrych ar yr grwpiau oed dan 45, gyda phobl dan 45 oed yn cyfrif am 13.4% yn unig o'r cynghorwyr yn y cynghorau yn yr arolwg. Mae pobl dan 30 yn cyfrif am 3.3% yn unig o gynghorwyr. O ystyried anawsterau'r sefyllfa gyfredol, a'r angen am benderfyniadau anodd, mae'r diffyg cynrychiolwyr iau yn peri cryn bryder am lle fydd toriadau yn disgyn.

Er ei fod (yn naturiol) yn mynd yn hŷn o ran proffil oed gyda deiliadaeth, mae mwy o amrywiaeth oed yn y Cynulliad Cenedlaethol, gyda niferoedd yn clystyru o gwmpas 45-59, ond gyda chyfran dda yn y grŵp oedran 30-44, a nifer fawr wedi'u hethol yn y grŵp 30-44 hefyd. Fel yn achos cydbwysedd rhywedd mae'n ymddangos bod cydbwysedd cymharol


iach o oedrannau o fewn y Cynulliad ond ni ddylid bod yn rhy hunanfodlon â hyn. Gyda 60 yn unig o Aelodau Cynulliad, bydd deiliadaeth yn cael hynny'n fwy o effaith, a hefyd wrth i ACau ymddeol mae'n bwysig bod ymgeiswyr o oedrannau gwahanol yn cymryd eu lle.

Mae ein data ar gynghorau lleol yn cadarnhau'r hyn rydym ni eisoes yn ei wybod; bod y mwyafrif llethol dros 60, yn wrywaidd, a dydi llywodraeth leol ddim yn ymddangos yn arbennig o groesawgar i bobl ifanc. Mae'n bosibl fod hyn oherwydd y ddelwedd draddodiadol o lywodraeth leol, ond hefyd mae'n annhebygol fod llawer o bobl ifanc yn ysu i gael eu troed i mewn drwy'r drws penodol yma.


Mae'n bwysig fod democratiaeth gynrychioliadol ar bob lefel yn adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Er bod cyfyngiadau'n golygu na fydd yn ddrych perffaith mae'n bwysig o ran ansawdd y prosesau penderfynu fod yr amrywiaeth ehangaf o brofiadau, safbwyntiau a barn yn cael eu cynnwys. Mae diffyg brwdfrydedd pobl ifanc yn ficrocosm o broblem ein gwleidyddiaeth ar ei fwyaf clir, ac mae'n bwysig fod pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol yn gwneud yn siŵr eu bod yn croesawu ac yn annog ein dinasyddion ifanc.

Mae'r argymhellion sy'n dilyn, yn amrywio o addysgu dinasyddiaeth i gofrestru etholwyr a chyfranogiad gwleidyddol, i gyd wedi'u hanelu at gynyddu gallu pobl ifanc i deimlo y gallan nhw gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Ond yn y pen draw, mae'n hanfodol fod pleidiau a sefydliadau gwleidyddol, fel ceidwaid y pyrth gwleidyddol, yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys pobl ifanc yn ein prosesau gwleidyddol yn llawn.

Ffigur 8: Oed Cyngorwyr yn ôl Cyngor



Dim ond
3.3%
o Gyngorwyr yng Nghymru
sydd yn
iau na 30



Oed Cyngorwyr, Cyfanswm Cymru

cyfweiliad

chris evans

I Chris Evans, taith gofiadwy i siop sglodion oedd yr hyn a daniodd ei chwilfrydedd gwleidyddol gan arwain at gael ei ethol yn 2010 yn AS Islwyn

Dechreuodd fy niddordeb mewn gwleidyddiaeth pan oeddwn i'n blentyn. Roeddwn i'n rhedeg i lawr y bryn at y siop sglodion a chefais fy nharo i lawr ar waelod y bryn. Bu'n rhaid i mi dreulio chwe wythnos yn yr ysbyty. Felly roeddwn i'n darllen comics, cylchgronau, beth bynnag – dim ond 13, 14 oeddwn i – a daeth mam â llyfr ar JFK, 'One Brief Shining Moment' gan William Manchester. Dechreuais i ddarllen hwnnw a chael fy nghyfareddu gan hanes y teulu Kennedy. Roedd egni'n perthyn i'r cyfnod gyda Hawliau Sifil i bawb, breintiau arbennig i neb. Roeddwn i'n hoffi'r syniad hwnnw, ac yn hoffi ei frawd hefyd, a'i syniad o greu clymblaid ar gyfer Hawliau Sifil.

Hefyd fe edrychais i o gwmpas fy ardal fy hun – cefais fy magu yn y Rhondda – a gwnaeth hynny fi'n fwy ymwybodol o fy nghefnidir fy hun. Roeddwn i'n gweld pobl yn gadael ysgol heb swyddi, gyda diwydiant trwm yn edwino a dim dyfodol. Yr hyn oedd y wasg yn sôn amdano oedd yuppies a Del Boy ac ati. Roedd popeth yn canolbwyntio ar Lundain, ac roedd fel pe bai pawb wedi anghofio amdanon ni.

Y syniad nad oes dim byd byth yn newid a bod diffyg ewyllys wleidyddol, a diffyg egni gwleidyddol: brwydro oedd y peth a'm denodd i mewn i wleidyddiaeth yn y lle cyntaf.

Dysgais fwyaf am wleidyddiaeth yn Llyfrgell Ynyshir – sydd bellach wedi cau yn anffodus – ond roeddwn i'n mynd yno bob dydd Gwener, ac roeddwn bron iawn yn bwyta'r llyfrau! Roeddwn i'n gŵc llwyr rhwng 14 a 18 oed, ac wrth fy modd.

Dwyf i ddim yn meddwl bod dim yn cael ei wneud heb weithredu cymunedol neu grŵp o bobl yn dod at ei gilydd. Does dim byd yn newid. Os yw'n ymwneud â'r unigolyn, yna mae'r unigolyn fel arfer yn edrych ar ôl ei ddibenion hunanol ei hun. Ond dwyf i ddim yn meddwl bod neb yn hunanol. Yn y bôn, mae pob un ohonon ni'n

anifeiliaid cymdeithasol, yn gweithio gyda'n gilydd. Pan ymunais i â'r blaid [Lafur] yn y cyfnod hwnnw, dywedon nhw hynny; ein bod yn gryfach gyda'n gilydd nag ydyn ni ar wahân.

Ar ôl gadael y brifysgol, aeth bywyd yn ei flaen i Chris

Dechreuais i weithio ar ôl gadael y Brifysgol a cholli diddordeb mewn gwleidyddiaeth am ychydig. Yna bu farw fy nhad pan oeddwn i'n 27. Dechreuais i edrych o fy nghwmpas a meddwl "dim ond am ychydig iawn o amser ydyn ni yma" felly dechreuais feddwl beth allwn ei wneud i wella'r amser sydd gennym ni yma; meddwl am fynd i fyd gwleidyddiaeth. Symudais i Cheltenham gyda fy swydd – roeddwn i'n swyddog undeb llafur, a des i'n ymgeisydd yn 2005. Dyna ddechrau pethau.

Roeddwn i wir, wir yn mwynhau ymgyrchu a siarad gyda phobl, pobl oedd â phersbectif gwahanol i fy un i. Rwyf i wedi byw yn y Cymoedd drwy gydol fy mywyd ac mae gan y mwyafrif o bobl, boed yn Genedlaetholwyr neu'n aelod o'r blaid Lafur, elfen o sosialeth sy'n rhedeg drwy'r lle. Felly roedd yn beth da mynd [i rywle gwahanol] i gyflwyno fy marn, a chryfhau fy marn fy hun hefyd.

Fe ddes i'n ôl i dde Cymru a dechrau gweithio gyda Don [Touhig]. Roeddwn i wrth fy modd yn gweithio gyda Don, ac mae Don yn gyfaill da i mi, yn fentor gwych. Ac fe ddes i'n agos ato a gweld sut roedd e'n gwneud y swydd a'r bobl roedd e'n eu helpu o ddydd i ddydd. Pan roddodd Don y gore iddi roeddwn i'n teimlo fy mod wedi bwrw fy mhrentisiaeth ac yn barod i fod yn Aelod Seneddol ac yn Aelod Seneddol da hefyd.

Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi wynebu problemau oherwydd ei oed, esboniodd Chris sut y dysgodd drin y mater

Fi yw'r 64ain Aelod Seneddol ieuengaf – felly mae nifer dda o bobl ifanc yn y Senedd beth bynnag. Mae'r Senedd yn teimlo llawer yn iau nag ydoedd yn 2005-2010. Felly does dim problem yna.

O ran y rhan fwyaf o grwpiau cymunedol rwy'n ymweld â nhw, rwyf i fel arfer 30 mlynedd yn iau na nhw! Y peth pwysig yw peidio ag edrych yn rhy ddisylwedd, bod yn ddifrifol a – mae hyn yn swnio'n rhyfedd – gwisgo siwt bob amser er mwyn edrych fel Aelod Seneddol yn hytrach na rhywun sy'n rholio mewn o'r stryd.

I mi, y peth pwysicaf wrth ymweld ag ysgolion yw dangos fy mod i'n siarad ag acen y Cymoedd. Rwyf i o'r Cymoedd – os gallaf i ei wneud e, yna gall unrhyw un. Y peth pwysig yw bod tlodi uchelgais yn y Cymoedd. Rwy'n credu os gwelan nhw rywun ag acen y Cymoedd, wedi'i eni yn y Cymoedd, sy'n gallu cyrraedd Tŷ'r Cyffredin, fod hynny'n bwysig iawn. A hefyd sylweddoli mai dyn cyffredin ydw i, heb fod yn wahanol i neb arall – mae hynny'n bwysig iawn hefyd.

Aeth Chris ymlaen i egluro sut y byddai'n ennyn mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

Yn gyntaf, dylai deddfwriaeth ddweud eich bod yn dysgu gwleidyddiaeth o 11 oed. Dylai pobl ddeall y system wleidyddol, beth yw Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad. Hefyd, dylai pobl ddeall bod gwleidyddiaeth yn digwydd i chi bob dydd o'r wythnos. Rwy'n credu bod angen hynny arnon ni yn yr ysgol, a dylid dysgu gwleidyddiaeth ar lefel TGAU a dylai fod yn opsiwn TGAU.



ARGYMHELLION

Y bleidlais yn 16 oed

- Dylai'r Senedd ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer pob etholiad ar draws y DU;
- Dylai'r Senedd ddatganoli pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol allu newid yr oedran pleidleisio ar gyfer pob etholiad Cymru yn unig;
- Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer pob etholiad yng Nghymru (y Cynulliad, lleol ac unrhyw refferendwm yng Nghymru'n unig) cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016;
- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gydag Awdurdodau Lleol Cymru, yr Awdurdodau Addysg Lleol a Chonsortia Addysg Rhanbarthol Cymru i ddatblygu system gadarn fyddai'n gweld ysgolion, colegau addysg bellach a phrifysgolion yn hybu ymgyrchoedd i gofrestru pobl ifanc.

Addysg Wleidyddol a Dinasyddiaeth mewn Ysgolion

Cwricwla cyfredol a Chyfranogiad Disgyblion

- Cyhyd ag y bo'n bosibl, dylai ysgolion sicrhau bod ABCh yn cael ei blaenoriaethu'n effeithiol gydag adnoddau digonol, oherwydd gall fod yn fuddiol i ddull ysgol-gyfan o addysgu dinasyddiaeth. Gall hyn arwain at sicrhau bod ABCh yn ffwlcrwm pwysig rhwng anghenion y cwricwlwm ac anghenion llesiant disgyblion a gall arwain at sicrhau bod y ddwy agwedd o fywyd ysgol yn ategu ei gilydd.
- Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i adolygu'n benodol a yw'r cwricwlwm yn darparu digon o drylwyredd a chyfle i ddisgyblion a phobl ifanc ddatblygu dealltwriaeth effeithiol o ddemocratiaeth yng Nghymru. Dylid addasu'r adolygiad i gyd-fynd ag agenda Donaldson wrth i hwnnw ddatblygu. Er mwyn tracio cynnydd dros y tymor hir, dylid sefydlu cylchoedd adolygu pum mlynedd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Cynghorau Ysgol

- Dylid gosod rolau a chyfrifoldebau cynghorau ysgol ar sail statudol. Byddai hyn yn sicrhau dealltwriaeth gynyddol o rôl cynghorau ysgol a'r rhan y gallan nhw ei chwarae i gyfoethogi profiad ysgol a llesiant disgyblion.
- Dylai Llywodraeth Cymru ehangu ei harweiniad ar gynghorau ysgol, a diweddarau a datblygu'r wybodaeth ar wefan Llais Disgyblion Cymru fel porthol sengl o wybodaeth i athrawon.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rôl y gall cynghorau ysgol ei chwarae i helpu i gynyddu'r nifer o etholwyr sy'n cofrestru drwy grwpiau cymheiriaid.

Adolygiad Donaldson

- Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi gweledigaeth Donaldson ar gyfer diben y cwricwlwm Cymreig, ac yn enwedig creu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd'.
- Dylid mabwysiadu'r argymhellion uchod o fewn fframwaith ac agenda Donaldson wrth iddo ddatblygu.

Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

- Dylid sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, gyda'i bwerau a'i gyfansoddiad wedi'u gosod yn statudol.
- Pobl ifanc ddylai gynllunio ac arwain Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, a hynny er budd pobl ifanc. Dylai fod dan arweiniad pobl ifanc yn llwyr, gan gynnwys ar lefel Ymddiriedolwyr. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr fod y corff yn gwrandao ac yn deall y materion sydd fwyaf pwysig i bobl ifanc, gan sicrhau, drwy eu cynrychioli ar lefel genedlaethol, bod eu lleisiau yn cael eu clywed gan y llywodraeth a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau.
- Dylai Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru fod yn atebol i gorff corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol am ei benderfyniadau a'i berfformiad, gyda'r Cynulliad yn craffu ei berfformiad ar sail ei lwyddiant yn hyrwyddo materion pobl ifanc a chael pobl ifanc i gymryd rhan.
- Dylai Cynulliad Cenedlaethol Ieuenctid Cymru fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol am ei gyllid.
- Dylid gosod cyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol i sefydlu Cyngor Ieuenctid Sirol, gyda maer Ieuenctid. Dylai fod gan y Cyngor Ieuenctid a'r Maer hawl statudol i ymgynghori ar unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn addas. Byddai deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar ddemocratiaeth leol ac ymgysylltu cymunedol, ar sail y Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflenwi, yn gosod hwn yn y statud.
- Dylai pob awdurdod lleol osod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn yn eu cyfansoddiad, gan ddilyn y model ar gyfer cyfansoddiad cyngor sydd i'w fabwysiadu'n seiliedig ar y Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflenwi.

Pobl Ifanc a Phleidiau Gwleidyddol

- Dylai pleidiau weithredu i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gyflawni targedau sydd wedi'u hanelu at sicrhau grŵp mwy amrywiol o gynghorwyr. Dylai'r targedau gynnwys ystod oedran ehangach (gan ddilyn argymhellion y Panel o Arbenigwyr ar Amrywiaeth).
- Pan fydd cyfleoedd ar gael, dylai pleidiau geisio sicrhau ystod oedran mwy amrywiol o ACau.

ASTUDIAETH ACHOS

Addysg Wleidyddol a Chyfranogiad Disgyblion yn Ysgol Sandfields, Port Talbot.

Mae gan Ysgol Sandfields adran ABCh benodol, gyda'r Pennaeth Adran arbenigol Miss Annette Stead. Yn hytrach na dosbarthu cyfrifoldebau ABCh rhwng gwahanol athrawon, mae hyn yn golygu bod y Pennaeth yn cael ei gwerthuso ar ei pherfformiad fel y byddai unrhyw adran arall.

Mae hefyd yn golygu bod athro'n fwy tebygol o fod yn gallu ac yn gyfforddus yn addysgu syniadau cymhleth. Rhaid i ABCh allu ymateb i faterion amserol, felly mae bod yn gyfforddus ac yn wybodus mewn maes pwnc yn bwysig. Yn Sandfields, er enghraifft, cafwyd trafodaeth ar rôl NATO pan gynhaliwyd yr uwchgynhadledd yng Nghasnewydd.

Gan fod ABCh yn cwmpasu meysydd addysgu mor gymhleth ag Iechyd Rhyw, Cyffuriau a Gwleidyddiaeth, mae'r angen am athrawon arbenigol sy'n gyfforddus yn addysgu'r pynciau hyn yn allweddol. Fel y nododd Miss Stead, yn nhermau gwytodaeth wleidyddol:

“Mae rhai disgyblion heb glywed am y Cynulliad Cenedlaethol. Os nad yw eu teulu nhw'n gwybod llawer amdano ei hunain dyw hyn ddim yn rhan arferol o'u bywydau a dim ond yn y gwersi maen nhw'n eu cael gennyf i, yr ysgol, a'r ysgolion cynradd y byddai'r materion hyn yn cael eu codi. Does ganddyn nhw

ddim yr wybodaeth sylfaenol honno i fachu arni er mwyn datblygu'r syniad o wleidyddiaeth.

“Felly'r her yw sicrhau hynny iddyn nhw, ei gael mewn dull maen nhw'n gallu ei ddeall. Un o'r enghreifftiau gorau y gallaf i ei rhoi yw'r dasg rwy'n ei gwneud – i esbonio sut mae gwleidyddiaeth yn cael ei threfnu, a'r bobl o fewn gwleidyddiaeth, mae'n rhaid i fi gynnig rhywbeth maen nhw'n gallu gweld gwleidyddiaeth yn debyg iddo. Felly byddaf i'n rhoi grid iddyn nhw a dweud wrthyh nhw “wel mae gennych chi'r Prif Weinidog, mae gennych chi Gynulliad, ac mae gennych chi ddinasyddion, yr UE. Pwy sy'n debyg i'r Prif Weinidog yn ein hysgol ni?” - Wel mae fel y Pennaeth. Pwy sydd fel y senedd - mae ychydig fel y llywodraethwyr ac ati. Mae'r Cyngor Ysgol yn debyg i rywun sy'n cadw golwg ar waith y llywodraeth ac mae'n gymorth iddyn nhw ddeall hynny.”

Mae'r cyfatebiad rhwng yr Ysgol a Democratiaeth yn estyn y tu hwnt i enghraifft at weithgaredd ymarferol. Er eu bod yn aml yn brin o wybodaeth sylfaenol am wleidyddiaeth 'ffurfiol', mae'r Cyngor Ysgol ac ABCh yn caniatáu i ddisgyblion gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r ysgol, gan roi sylfaen gref i'r disgyblion mewn dinasyddiaeth a sgiliau gwleidyddol:

“gyda’r Cyngor Ysgol, maen nhw’n ei werthfawrogi ac yn ei ddeall. Mae’n gwella llesiant oherwydd mae’n rhoi llais i’r disgyblion. Maen nhw’n gwybod eu bod nhw’n gallu crybwyll pethau, cael pethau i symud a newid. Ac mae’n faes sy’n seiliedig ar gymuned... Felly er bod ymwybyddiaeth wleidyddol [ffurfiol] yn rhywbeth sy’n anodd iddyn nhw, am fod eu gwybodaeth yn is, mae eu hymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain a gwneud i newid ddigwydd yn yr ysgol yn well, gan ei fod yn ymwneud mwy â’u hysgol eu hunain ac yn ymwneud â’u cymuned nhw. Mae’r ysgol wedi bod ar yr ystad ers 50 mlynedd. Mae’n ystad gyngor fawr, caiff digwyddiadau cymunedol eu trefnu yma, ac mae’n cael ei llogi. Rwy’n credu bod hynny’n gwneud gwahaniaeth mawr mewn gwirionedd.”

Dros y blynyddoedd diweddar mae Cyngor yr Ysgol wedi gwneud cyfraniad i’r canlynol:

- Trefnu bod murluniau’n cael eu paentio yn y toiledau, gan gynnwys trafodaeth gydag artist lleol am yr hyn roedd y disgyblion am ei weld;
- Lobio am gyllid i osod lifft er mwyn i ddisgyblion ag anawsterau symudedd allu defnyddio’r llyfrgell ar yr ail lawr, lle’r oedd un o’r cyfarfodydd clwb mwyaf poblogaidd yn cael ei gynnal. Mae’r lifft bellach wedi’i osod ar gost o tua £70-80,000;
- Cynrychiolwyr o’r Cyngor Ysgol yn cyfweld ag ymgeiswyr staff newydd;
- Arwain gwasanaeth boreol i egluro beth mae fframwaith llesiant newydd y disgyblion yn ei olygu i’r disgyblion eu hunain;
- Cyfnewid â Chynghorau Ysgol eraill i rannu ymarfer da.

Ymhellach, mae’r Ysgol yn symud i adeilad newydd yn ystod y 18 mis nesaf, a disgwylir y bydd Cyngor yr Ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y broses honno. Maen nhw’n ymwneud â’r broses drwy gael cyfarfodydd gyda’r penseiri a’r cynllunwyr.

O ran cysylltu agweddau academaidd a llesiant bywyd ysgol, mae’r model roedd ABCh yn ei ddilyn yn caniatáu ar gyfer

cynnwys lleisiau’r disgyblion o fewn addysg y Cwricwlwm ac Addysg Fugeiliol gan atgyfnerthu ei gilydd. Mae’r model ABCh yn defnyddio arolygon o ddisgyblion a’r manteision o fod yn agos at farn disgyblion ar gyfer ‘casglu gwybodaeth’ ar lawr gwlad i glywed am unrhyw beth sydd o’i le ac sydd angen sylw. Felly mae llais myfyrwyr cynyddol yn dod yn rhywbeth arferol drwy holl system yr ysgol, gan helpu i wneud cymuned yr ysgol yn hapusach o ran llesiant, sydd yn ei dro’n debygol o olygu bod y myfyrwyr – a’r ysgol – yn perfformio’n well yn academaidd.

“Mae’n ddeublyg, wrth i chi gael y Cyngor Ysgol a hefyd y gwersi Cyfarwyddo [ABCh a Gyrfaoedd]. Felly maen nhw i gyd yn fy ngweld i unwaith yr wythnos. Felly er enghraifft, o fewn y gwaith ABCh pan fyddaf i’n trafod bwlio yn y gwersi, byddaf i hefyd yn gofyn i ddisgyblion greu eu tudalen gwe eu hunain i’r ysgol, ac ar honno ysgrifennu unrhyw broblemau maen nhw’n teimlo sydd yn yr ysgol, ac yna byddaf i’n bwydo unrhyw broblemau sy’n codi i’r Pennaeth Cynorthwyol fy hun. Rwy’n gwneud arolygon i weld pwy sy’n ofalwr ifanc ym mlwyddyn 7.

Felly mae’n gryfder yn y gwersi ABCh a chael arweinydd yn yr adran. Mewn ysgol mae gennyich chi elfen cwricwlwm ac elfen fugeiliol – edrych ar ôl llesiant y disgyblion – ac rwy’n bwydo i’r ddwy elfen. Rwy’n eistedd mewn cyfarfodydd cynllunio’r cwricwlwm ac ar gyfarfodydd cyflawni llesiant y Disgybl. Felly rwy’n gallu eu triogli ac fe ddaw’r pennaeth ataf i a holi a allaf i wneud rhywbeth, gan fod problem, a holi a allaf i wneud arolwg o’r disgyblion ac ati. Ac mae hynny’n digwydd yn y gwersi hefyd.”

Felly mae’r adran ABCh yn gweithredu fel plethwaith sy’n cysylltu gwahanol agweddau o bolisi’r ysgol gyda’i gilydd, gan ddarparu ar gyfer gwell addysg wleidyddol, a chynorthwyo gyda chyfranogiad myfyrwyr a’r Cyngor Ysgol. Mae’r llais cynyddol hwn i ddisgyblion yn ei dro’n cynnig llwybr i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau dinasgyddiaeth, yn ogystal â lleddfau cwynion, a darparu datrysiadau diogel i ymddygiad trafferthus sydd yn fwy tebygol o ddod â materion a allai fod yn broblem i’r wyneb.

ASTUDIAETH ACHOS

Bite the Ballot – Cwmni niwtral o ran plaid, dielw, er budd y gymuned a sefydlwyd i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth.²⁸

Fedrwch chi egluro beth mae BTB yn ei wneud?

Ganwyd Bite The Ballot (BTB) mewn ystafell ddosbarth dair wythnos cyn etholiad cyffredinol 2010, ac fe'i sbardunwyd gan brofiadau a rhwystredigaethau (staff a) myfyrwyr nad oedd, hyd hynny, wedi gweld y cysylltiad rhwng y materion oedd yn bwysig iddyn nhw a chyfranogiad democrataidd.

Erbyn heddiw, mae BTB yn fudiad cenedlaethol, yn rhedeg ymgyrchoedd ar draws y DU ar gyfer cofrestru pleidleiswyr ac ymgysylltu democrataidd, diwygio'r gyfraith i adfywio democratiaeth Brydeinig ac rydym ni'n ceisio dod ag ymgysylltu digidol, democrataidd i flaen yr ymwybyddiaeth wleidyddol. Wrth ymgysylltu â'r bobl sydd bellaf i ffwrdd o wleidyddiaeth, ein gwerthoedd craidd yw bod yn anghonfensiynol, cynhwysol a beiddgar; tri gair na fydddech chi o bosib yn eu cysylltu â 'gwleidyddiaeth' gyfoes.

Mae tair lefel i'n hagwedd at ymgysylltu â phleidleiswyr a democratiaeth: llawr gwlad, y lefel ddigidol a lefel polisi.

Gan ddefnyddio ein hadnoddau dysgu digidol ('The Basics'), sy'n cynnwys enwogion, arwyr a phobl sy'n dylanwadu, rydyn ni'n tynnu dirgelwch allan o'r broses gofrestru ac yn gwthio'r neges syml ond grymus fod pobl rhwng 16 a 25 yn 'bleidleisiau sy'n werth eu hennill'. Rydyn ni'n mynd â'r adnoddau hyn i ysgolion, colegau a chlybiau ieuenctid ledled y wlad. Mae'r sesiynau hyn yn aml dan arweiniad Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol BTB. Y swyddogion hyn yw ein rhwydwaith o bobl ar lawr gwlad sy'n gweithio gyda'r timau etholiadol mewn awdurdodau lleol sydd â'r dasg o gofrestru ac ysbrydoli etholwyr ifanc yn eu hardal leol.

Yn ddigidol, rydyn ni'n ceisio parhau a chyfoethogi taith ddemocrataidd pobl (ar ôl fflach gychwynnol o ysbrydoliaeth) drwy sianel YouTube yn seiliedig ar faterion cyfoes, dan arweiniad pobl ifanc sef BITE News, gan drefnu prosiectau fel #LeadersLive a chreu ffug-ddogfennau'n seiliedig ar faterion penodol. Rydyn ni hefyd yn y broses o greu ap sy'n cynghori etholwyr i helpu'r etholwyr i gymharu polisiau ac ymrwymadau maniffesto'r pleidiau a'r arweinwyr.

O bersbectif polisi, rydyn ni'n annog gwleidyddion i ddeall pwysigrwydd pleidlais pobl ifanc, ac arwyddocâd llunio polisi gyda phobl 16-24 mewn golwg. Mae gennym ni hefyd restr o argymhellion polisi ('Nid gwyddoniaeth y gofod yw hyn') â'r nod o wyrddroi'r lefelau rhyfeddol o isel o gofrestru ac ymddieithrio ymhlith pobl ifanc 16-24 oed. Yn ddiweddar ceisiodd BTB gyflwyno trefn haws, fwy hygyrch a difyr i gofrestru pleidleiswyr yn y DU drwy ddigwyddiadau i Fil Cymru. Rydyn ni hefyd yn noddi Biliau Aelodau Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Tynnodd ymgyrch #TheAmendment (oedd yn ceisio gwella Bil Cymru) ei ysbrydoliaeth o ddulliau cofrestru etholiadol arloesol a llwyddiannus o bob rhan o'r byd. Yn gyntaf, drwy adeiladu ar raglen 'Schools Initiative' yng Ngogledd Iwerddon, buom yn dadlau y gallai gosod ymrwymiad statudol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i fynd i ysgolion a cholegau lleol i gynnal neu hwyluso 'sesiynau ymgysylltu â phleidleiswyr' fod yn llwyddiannus iawn i hybu cyfraddau cofrestru. Dyma bolisi Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yn ail, gan dynnu ysbrydoliaeth gan Ddeddf 'Motor Voter' UDA 1993, ceisiodd ni gyflwyno cofrestru 'blwch ticio' yng Nghymru, a fyddai, yn ei hanfod, yn galluogi unigolion i gofrestru wrth ryngweithio gyda chyrrff llywodraethol (e.e. wrth geisio am drwydded yrru). Cafodd yr ymgyrch gefnogaeth holl brif arweinwyr Cymru, y Cynulliad, Llywydd y Cynulliad, yr Eglwys yng Nghymru a llu o gyrff ieuencid, democratiaeth a chymdeithas sifil. Oherwydd gwrthwynebiad Llywodraeth y DU, bydd yr ymgyrch nawr yn symud at y Cynulliad a phob un o'r ddau ddeg a dau o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn ogystal rydym ni'n gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Gofrestru Pleidleiswyr sy'n caniatáu i ni graffu'r cyrrff sy'n goruchwyllo cofrestru pleidleiswyr, fel y Comisiwn Etholiadol a Swyddfa'r Cabinet, yn ogystal â datblygu a gwerthuso polisiau yn Senedd y DU.

Beth yw nodau BTB?

Cenhadaeth BTB yw creu hanes: rydyn ni am sicrhau'r nifer uchaf erioed o bobl 18-24 oed yn pleidleisio yn etholiad cyffredinol 2015 (o leiaf 71%). O ystyried y lefelau cyfranogi uchaf erioed yn Refferendwm Annibyniaeth yr Alban, rydyn ni'n credu bod cymdeithas mewn sefyllfa berffaith i wireddu hyn.

Gyda **dim ond 51% o bobl 16 a 17** oed ar hyn o bryd wedi'u cofrestru i bleidleisio a dim ond **24% o bobl 16-24** oed yn debygol o bleidleisio, nod BTB yw mynd i'r afael â'r argyfwng democrataidd ar ei ben.

Sut ydych chi'n ennyn diddordeb pobl ifanc, a sut maen nhw'n rhan o'ch prosesau penderfynu?

Unig ddiben ein sefydliad yw ennyn diddordeb pobl 16-24 oed a'u cynnwys mewn democratiaeth. Felly er mwyn cadw ein neges a'n brand yn unol â'r ddemograffeg hon, rydyn ni'n gwranddo'n astud ar ein Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys pobl 16-24 oed sydd wedi ymuno â BTB ers iddo gael ei greu. Mae rhan bwysig gan y Bwrdd yn y penderfyniadau ac maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd i ddal cyfarwyddwyr y sefydliad yn atebol a sicrhau parhad effeithiol nodau BTB.

Yn ogystal, cynhalion ni arolwg helaeth o dros 5,000 o bobl 16-24 oed yn 2012 dan y teitl 'My Manifesto' – gan holi pobl am y materion oedd yn bwysig iddyn nhw a'r polisiau yr hoffon nhw eu gweld yn cael eu cyflwyno. Yr arolwg hwn sydd wedi ffurfio sail ein holl argymhellion polisi i bleidiau'r DU ar gyfer maniffestos etholiad cyffredinol 2015.

Roedden ni'n dibynnu'n helaeth ar fyddin o wirfoddolwyr ifanc ar y **Ddiwrnod Cofrestru Pleidleiswyr** cyntaf, gan gofrestru tua 50,625 o bobl mewn un diwrnod, yn wir roedd rhai o'n gwirfoddolwyr yn rhy ifanc i gofrestru eu hunain.

Sut mae pobl ifanc wedi ymateb i BTB?

Yr ymateb cyffredinol i wleidyddiaeth, neu'n fwy penodol, gwleidyddiaeth plaid fel sydd yn San Steffan, yw diffyg diddordeb, ffieidd-dod neu ddiystyru ymhlith y bobl rydyn ni'n cwrdd â nhw ar draws y DU. Fodd bynnag mae BTB yn falch i fod yn 'gwneud gwleidyddiaeth yn wahanol'. Dydyn ni ddim yn ofni galw gwleidyddion, Adrannau, gweision sifil neu gyrff anllwyodraethol i gyfrif. Hyn, ynghyd â'n hagwedd sy'n seiliedig ar faterion sy'n bwysig i bobl, sy'n tanio dealltwriaeth ar unwaith rhwng BTB a'r bobl rydyn ni'n ceisio rhyngweithio â nhw. Rydyn ni'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cartref llawer o bobl 16-24 oed, er mwyn newid; yr enghraifft orau yw ein prosiect diweddar, **Leaders Live** sydd wedi trendio ar Twitter bob tro i ni drefnu un o'r trafodaethau polisi hyn rhwng arweinwyr. Mae hyn yn caniatáu symud oddi wrth ddelwedd ffurfiol a thraddodiadol 'gwleidyddiaeth' wrth i ni chwalo'r rhwystrau rhwng y rheini sy'n amheus o wleidyddiaeth, ond sy'n poeni am faterion gwleidyddol.

Ar ddechrau sesiwn BTB mewn ysgol, coleg neu glwb ieuenctid, dyw'r rhan fwyaf, os nad pob un, o'r bobl ifanc ddim wedi cofrestru i bleidleisio; a does ganddyn nhw ddim diddordeb mewn cofrestru. Erbyn diwedd y sesiwn 45 munud, fel arfer fydd gennym ni gyfradd gofrestru o 100%. Yn sgil llwyddiant y sesiynau hyn, rydyn ni'n credu y dylai swyddogion cofrestru etholiadol yr awdurdodau lleol ddilyn ein harweiniad a threfnu sesiynau tebyg yn eu hysgolion a cholegau lleol. Dyma ein cais allweddol yn ein gwelliant i Fil Cymru a'n Biliau Aelodau Preifat ar Gofrestru Pleidleiswyr.

Beth fu effaith a phrif lwyddiannau BTB?

Prif lwyddiant BTB hyd yma yw cofrestru tua 50,625 o bobl ar Ddiwrnod Cenedlaethol Cofrestru Pleidleiswyr 2014 ar gost o **25c am bob cofrestriad**, sydd tua 100 gwaith yn fwy cost-effeithiol na'r Comisiwn Etholiadol. Gyda gwahanol weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi ychwanegu'n sylweddol at y nifer o unigolion cofrestredig, ond bydd ein heffaith wirioneddol ar lawr gwlad yn cael ei mesur yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol 2015, a chyfranogiad yn yr etholiad hwnnw.

Sicrhaodd gwelliannau trawsbleidiol BTB i Fil Cymru gefnogaeth pob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan gael croeso rhyfeddol o dda. O ganlyniad, rydyn ni'n obeithiol bod gennym ni gyfle gwirioneddol i ddod â threfn o gofrestru pleidleiswyr i Gymru fydd yn haws, yn fwy hygyrch a deniadol drwy weithio gydag ACau, swyddogion cofrestru pleidleiswyr a grwpiau ymgyrchu yng Nghymru. Rydyn ni'n credu bod hwn yn gyflawniad anferth a (thrwy adeiladu ar lwyddiant cynlluniau yng Ngogledd Iwerddon) rydyn ni'n gobeithio defnyddio Cymru i arwain democratiaeth ar draws y Deyrnas Unedig.

Ymhellach, mae sicrhau dadleuon gyda saith o arweinwyr pleidiau gwleidyddol y DU a darpar bleidleiswyr ifanc – wedi'u ffrydio'n fyw ar YouTube mewn cysylltiad â Twitter UK ('Leaders Live') – wedi bod yn llwyddiant mawr i BTB. Nid yn unig mae hyn yn digwydd am y tro cyntaf yn genedlaethol, ond hefyd mae wedi caniatáu i bobl ifanc gysylltu â gwleidyddion yn uniongyrchol am y materion sy'n effeithio ar blatfform maen nhw'n gyfarwydd ag e. Does dim modd mesur effaith #LeadersLive am ei fod yn dal ar waith, ond rydyn ni'n rhagweld y bydd yn cyrraedd miloedd o ddarpar etholwyr; ac yn ysbrydoli llawer mwy.

Beth yw cynlluniau BTB at y dyfodol?

Ein cynllun yw creu hanes yn y DU. Rydyn ni am gofrestru ac ysbrydoli'r nifer uchaf o bobl 18-24 erioed i bleidleisio (gan gymryd etholiad cyffredinol Chwefror 1974 fel man cychwyn, a welodd 70% o bobl 18-24 oed yn pleidleisio).

Rydyn ni'n bwriadu gwneud hyn drwy ehangu ein rhwydwaith llawr gwlad o swyddogion ymgysylltu cymunedol, cynyddu ein presenoldeb digidol a sicrhau bod yr holl bleidiau gwleidyddol yn cynnwys polisiau sy'n ystyriol o bobl ifanc ynghyd â pholisiau ar gyfer diwygio democrataidd gwirioneddol yn eu manifestos. Ymhellach, byddwn yn cydweithio gyda rhestr enfawr a chynyddol o sefydliadau i sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn cysylltu ac yn cael eu hysbrydoli i gofrestru a phleidleisio - a'r uchafbwynt fydd wythnos o weithgareddau cofrestru o ddeutu 5 Chwefror 2015 (#NVRD 2015).

Yn y tymor hir, rydyn ni am sicrhau bod y genhedlaeth hon, a phob cenhedlaeth yn y dyfodol, yn ymgysylltu ac yn cael eu hysbrydoli i ddod yn ddinasyddion gweithgar, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a llunio dyfodol ein gwlad.

Atodiadau

Mae'r tablau canlynol yn dangos y data cyfan a ddefnyddwyd yn ffigurau 1-8 drwy'r cyhoeddiad yma

Grŵp	Cyflawnrwydd
Cyfartaledd (cyfanswm y boblogaeth)	86%
Pobl ifanc 17-18 oed	55%
Pobl ifanc 19-24 oed	56%
Rhentu'n breifat (pob oed)	56%
Dinasyddion yr UE (pob oed)	56%
Dinasyddion Gwyddelig a'r Gymanwlad (pob oed)	68%
Grwpiau BME (pob oed)	77%
Rhentu cymdeithasol (pob oed)	78%

Ffigur 1: Lefelau cofrestru (y DU, 2013)

Grŵp oed	Cyflawnrwydd
16-17	51%
18-19	76%
20-24	70%
25-34	74%
35-44	85%
45-54	91%
55-64	93%
65+	95%

Ffigur 2: Lefelau Cofrestru yn ôl Oed (y DU, 2014)

Oedran	Yn Sicr am Bleidleisio
18-24	24%
25-34	35%
35-44	42%
45-55	57%
55-64	60%
65-74	64%
75+	67%

Ffigur 3a: Yn Sicr am Bleidleisio (yn ôl oed, y DU, 2014)

Oedran	Dyletswydd i Bleidleisio
18-24	46%
25-34	60%
35-44	61%
45-54	70%
55-64	78%
65-74	79%
75+	77%

Ffigur 3b: Dyletswydd i Bleidleisio (yn ôl oed, y DU, 2014)

	1964	1966	1970	F1974	01974	1979	1983	1987	1992	1997	2001	2005	2010
18-24	76.4	60.5	64.9	70.2	62.5	62.5	63.9	66.6	67.3	54.1	40.4	38.2	51.8
25-34	70.7	70.8	66.5	77.2	69.0	72.4	67.6	74.0	77.3	62.2	45.0	47.7	57.3
35-44	79.5	80.0	72.8	78.7	73.9	76.3	76.2	74.9	78.3	70.2	55.7	61.6	64.4
45-54	79.1	79.8	74.9	73.1	76.6	81.2	77.6	79.9	81.8	76.4	63.2	65.5	67.5
55-64	78.4	78.0	74.1	82.2	76.6	81.4	77.2	78.9	78.1	79.9	64.0	72.6	69.8
65+	76.7	75.9	77.2	79.2	76.0	77.7	73.1	76.0	79.2	77.7	70.1	74.3	74.7
ALL	77.1	75.8	72.0	78.8	72.8	76.0	72.7	75.3	77.7	71.4	59.4	61.3	65.0

Ffigur 4: Tabl yn dangos cyfraddau pleidleisio (18-24 yn erbyn y boblogaeth gyffredinol)

Blwyddyn	Canran 65+ (pleidleiswyr cofrestredig)	Canran 18-24 (pleidleiswyr cofrestredig)	Bwlch y Ganran Bleidleisio
1970			18
2005	75%	37%	40
2010	76%	44%	32

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	1	2
30-44	18	26
45-59	28	28
60-74	14	5
75+	0	0

ACau 2011 (yn etholiad 2011)

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	2	5
30-44	14	23
45-59	36	31
60-74	8	2
75+	0	0

ACau 2007

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	2	5
30-44	18	22
45-59	35	32
60-74	6	2
75+	0	0

ACau 2003

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	4	4
30-44	18	18
45-59	33	33
60-74	5	5
75+	0	0

ACau 1999

Ffigur 5: Oed ACau (adeg etholiad, a pan etholwyd gyntaf)

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	0	0
30-44	12	27
45-59	18	13
60-74	10	1
75+	1	0

ASau 2010

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	0	0
30-44	10	24
45-59	25	17
60-74	6	0
75+	0	0

ASau 2005

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	0	1
30-44	12	27
45-59	23	13
60-74	6	0
75+	0	0

ASau 2001

Oedran	Adeg yr etholiad	Etholwyd yn gyntaf
18-29	0	3
30-44	6	24
45-59	27	13
60-74	7	0
75+	0	0

ASau 1997

Ffigur 6: Oed ASau (adeg etholiad, a pan etholwyd gyntaf)

Oedran	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
18-29	2.1%	2.4%	3.2%	7%
30-39	4.7%	5.3%	6.7%	10%
40-49	11.3%	11%	16.6%	20%
50-59	25.4%	21.9%	28.3%	27%
60-69	38.8%	40.3%	38.2%	25%
70-79	17%	19.1%	6.7%	9%
80+	1%		0.3%	

Ffigur 7: Oed cynghorwyr ledled y Deyrnas Unedig

Cynghorau unigol	18-29	30-44	45-59	60-74	75+	Cyfanswm
Pen-y-bont	3	6	15	25	4	53
%	5.7	11.3	28.3	47.2	7.5	
Sir Gaerfyrddin	1	4	25	38	6	74
%	1.4	5.4	33.8	51.4	8.1	
Caerffili	2	9	21	34	7	73
%	2.7	12.3	28.8	46.6	9.6	
Ceredigion	0	6	21	34	7	68
%	0	8.8	30.9	50	10.3	
Conwy	1	6	16	35	1	59
%	1.7	10.2	27.1	59.3	1.7	
Sir Ddinbych	1	7	11	23	5	47
%	2.1	14.9	23.4	48.9	10.6	
Gwynedd	3	9	31	29	3	75
%	4	12	41.3	38.6	4	
Merthyr	0	6	11	13	3	33
%	0	18.2	33.3	39.4	9.1	
Castell Nedd Port Talbot	5	6	19	26	8	64
%	7.8	9.4	29.7	40.6	12.5	
Casnewydd	3	3	20	22	2	50
%	6	6	40	44	4	
Sir Benfro	2	6	24	26	2	60
%	3.3	10	40	43.3	3.3	
RCT	4	8	19	38	6	75
%	5.3	10.7	25.3	50.7	8	
Wrecsam	1	3	20	20	4	48
%	2.1	6.2	41.7	41.7	8.3	
CYFANSWM	26	79	253	363	58	779
%	3.3	10.1	32.5	46.6	7.4	

Figur 8: Oed cynghorwyr yn ôl cyngor

Electoral
 Reform
 Society
Cymru

www.electoral-reform.org.uk